Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Public Services Board

# Ymgynghoriad Cynllun Llesiant Lleol 2023-2028

## Adroddiad Adborth








Chwefror 2023

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion Public Services Board

# PRIF GANLYNIADAU

**41**

Ymatebion a dderbyniwyd *(gan gynnwys 7 ymateb ysgrifenedig)*

(Roedd 13 Ysgol Gynradd, 3 Ysgol Uwchradd a'r Cyngor Ieuenctid wedi cymryd rhan mewn sesiynau ymgysylltu)

**88%**

**Yn cytuno** mai'r 5 amcan llesiant yw'r blaenoriaethau cywir

(12% yn anghytuno)

**85%**

**Yn cytuno** gyda'r cynlluniau i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi

(15% yn anghytuno)

**91%**

**Yn cytuno** â'r cynlluniau i helpu i adeiladu economi gynaliadwy

(6% yn anghytuno, 3% heb ateb)

**85%**

**Yn cytuno** â'r cynlluniau i helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n ymwneud ag iechyd corfforol a meddyliol

(15% yn anghytuno)

**91%**

**Yn cytuno** â'r cynlluniau i helpu i leihau ôl troed carbon Ceredigion

(9% yn anghytuno)

**91%**

**Yn cytuno** â'r cynlluniau i'ch helpu i deimlo'n ddiogel ac wedi'u cysylltu â diwylliant

(9% yn anghytuno)

"Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau economi gynaliadwy sydd o fudd i bobl leol ac sy'n adeiladu ar gryfderau Ceredigion."

oedd yr amcan llesiant pwysicaf i ymatebwyr

**Ymgynghoriad wedi'i gynnal rhwng 25 Hydref 2022 a 31 Ionawr 2023**

Roedd yr arolwg ar gael ar-lein trwy wefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac wedi'i hysbysebu gan aelodau'r Bwrdd

Derbyniwyd cyfanswm o 34 o ymatebion i'r arolwg ymgynghori

Mae'r canlyniadau llawn a'r wybodaeth monitro cydraddoldeb i'w gweld ar y tudalennau canlynol

# Cefndir

Rhwng 25 Hydref 2022 a 31 Ionawr 2023, cynhaliodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ymgynghoriad cyhoeddus ar ei Gynllun Llesiant Lleol drafft 2023-28. Mae'r Cynllun Llesiant Lleol yn ofyniad statudol ar bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac mae'n nodi'r amcanion y bydd y Bwrdd yn eu cymryd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yr ardal.

Nod yr ymgynghoriad oedd cofnodi barn trigolion a rhanddeiliaid ar awgrymiadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch sut y gall weithio i wneud y gwahaniaeth mwyaf i lesiant unigolion, cymunedau a Cheredigion yn gyffredinol. Bydd y safbwyntiau hyn yn helpu'r Bwrdd i ddeall yn well sut i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal: o dyfu busnesau newydd i ddiogelu'r amgylchedd, ac o drechu tlodi ac unigrwydd i adeiladu ymdeimlad o gymuned a balchder ar draws y sir. Bydd yn gosod y sylfeini ar gyfer sut y gallwn gydweithio yn y dyfodol, gan oresgyn yr heriau ar y cyd a manteisio ar y cyfleoedd sydd bwysicaf i bob un ohonom.

Ffurfiwyd rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (ochr yn ochr â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill ar draws Cymru) trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sydd hefyd yn nodi'r '7 nod llesiant' sef ein gweledigaeth gyfunol ar gyfer Cymru gyfan. Er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i lesiant pawb, mae Cynlluniau Llesiant yn cael eu cynhyrchu bob 5 mlynedd, wedi'u llywio gan Asesiad Llesiant.

Roedd yr arolwg ar gael ar-lein trwy wefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, trwy Fforwm Dweud Eich Dweud Ceredigion a chafodd ei hysbysebu gan holl aelodau'r Bwrdd. Roedd copïau papur ar gael ym mhob un o lyfrgelloedd a chanolfannau hamdden Ceredigion. Roedd fersiynau Hawdd eu Deall a Phobl Ifanc o'r Cynllun drafft hefyd ar gael mewn llyfrgelloedd ac ar dudalen we Ymgynghoriadau Cyngor Sir Ceredigion.

# Cyfradd Ymateb

Cafwyd cyfanswm o 34 o ymatebion i'r arolwg ymgynghori gan gynnwys 242 o sylwadau ysgrifenedig. Ar gyfartaledd cymerodd ymatebwyr 37 munud i gwblhau'r arolwg. Cafwyd 5 ymateb ysgrifenedig ar wahân hefyd gan bartneriaid allweddol, postiwyd 15 ymateb ar y wal syniadau a chafwyd sesiynau penodol gyda disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd ynghyd â'r Cyngor Ieuenctid i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed. Mae'r tudalennau sy'n dilyn yn rhoi crynodeb o'r casgliadau.

# Prif Gasgliadau

### C1: Oeddech chi'n ymwybodol o'r BGC a'i rôl yng Ngheredigion cyn yr ymgynghoriad hwn?

Mewn ymateb i'r cwestiwn agoriadol, dim ond 41.2% neu 14 o ymatebwyr oedd yn ymwybodol o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion cyn yr ymgynghoriad hwn, er ei fod yn bodoli ers 2016. Daeth Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i fodolaeth yn dilyn pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.


Dywedodd union hanner (50% neu 17) o ymatebwyr nad oeddent yn ymwybodol o'r Bwrdd, sy'n awgrymu bod angen gwneud rhagor o waith i hyrwyddo'r Bwrdd, y Cynllun Llesiant Lleol a'i weithgareddau wrth gyflawni'r cynllun.

Roedd dau ymateb arall a ddywedodd eu bod dim ond yn rhannol ymwybodol o'r BGC a'i rôl cyn yr ymgynghoriad.

### C2: Rhowch bedair llythyren gyntaf eich cod post i ni er mwyn ein helpu i dargedu ein gwaith


O'r 34 o ymatebion a dderbyniwyd, dywedodd y gyfran fwyaf (44.1%) eu bod yn dod o ardal cod post gyffredin SY23 yng ngogledd a chanol y Sir, sy'n cynnwys Aberystwyth. Roedd 20.6% pellach o ymatebwyr o god post SA43 yng ngwaelod de'r Sir, ac 8.8% yn SY25 i'r dwyrain yn pontio'r ffin â Phowys. Mae dosbarthiad llawn yr ymatebion yn ôl ardal cod post i'w weld yn Ffigur 1. (Ni chafwyd unrhyw ymatebion o chwe rhanbarth cod post, sef SY24, SA47, SA46, SA44, SA39 a SA38).

Ffigur 1: Dosbarthiad ymatebion ar draws Ceredigion




### C3: Ydych chi'n cytuno mai'r 5 amcan llesiant yw'r blaenoriaethau cywir i ganolbwyntio arnynt i wella llesiant yn eich ardal leol?

Roedd cwestiwn 3 yn ceisio canfod lefelau cyffredinol o gefnogaeth ar gyfer y 5 amcan llesiant arfaethedig yn y Cynllun Llesiant Lleol drafft. Dywedodd y mwyafrif llethol (88%) "ydw", eu bod yn cytuno mai'r 5 amcan yw'r blaenoriaethau cywir i'w canolbwyntio arnynt er mwyn gwella llesiant. Roedd y 12% arall yn anghytuno ac nid oeddent yn meddwl mai dyma'r amcanion cywir.




## C4: Unrhyw sylwadau

Er bod yr ymatebion ysgrifenedig yn amrywiol, sylwadau yn ymwneud â'r amgylchedd a materion amgylcheddol oedd fwyaf cyffredin. Roedd dau o'r ymatebion ysgrifenedig wedi nodi nad yw Amcan 3: Byddwn yn cydweithio i gyflawni mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol, yn sôn am yr argyfwng bioamrywiaeth. Nododd un ymatebwr fod angen i'r amcan hwn edrych ar "y darlun ehangach o golli bioamrywiaeth", a dywedodd yr ail ymatebwr y dylai'r amcan hwn "gyfeirio at yr argyfwng bioamrywiaeth hefyd."

Roedd gweddill y sylwadau ysgrifenedig ar gyfer y cwestiwn hwn yn weddol gymysg. Dywedodd un o'r sylwadau fod angen i Awdurdodau Lleol "gael y pethau sylfaenol yn iawn" cyn "ehangu ar eu cynnig". Nododd sylw ysgrifenedig arall pa mor bwysig yw cael mynediad at fyd natur a chysylltu pobl yn well â'r system fwyd, gan nodi hefyd fod gwneud bwyd lleol yn fwy hygyrch ac yn rhatach yr un mor bwysig. Yn yr un modd, awgrymodd un ymatebwr er ei fod yn cytuno â'r amcanion, "dydyn nhw ddim yn mynd yn ddigon pell" a bod angen ailwampio arferion amaethyddol yn llwyr oherwydd bod diogelwch bwyd yn dibynnu ar hyn. Mae pwyslais bod "angen iddo fod yn lleol ac yn gynaliadwy".


Roedd ymateb pellach yn pwysleisio'r cyfleoedd i bobl ag anableddau, gan gynnwys dosbarthiadau ymarfer corff, pwll nofio a mynediad gwell at ganolfannau hamdden ar drafnidiaeth gyhoeddus a/neu fannau parcio i'r anabl. Mae sylw arall yn awgrymu y dylai'r amcanion ganolbwyntio rhywfaint ar sut y byddai'r cynnydd yn y boblogaeth sy'n heneiddio yn cael ei rheoli. Gellir gweld crynodeb o'r sylwadau hyn yn y tabl isod.

| Sampl o'r Sylwadau | |
|---|---|
| "Mae mynediad at fyd natur yn bwysig iawn a hefyd cysylltu pobl yn well â'r system fwyd a gwneud bwyd lleol yn llawer mwy cyffredin ac yn hollbwysig yn rhatach." | "Rwy'n meddwl bod gormod o ffocws ar ddatblygiad diwylliannol a dim digon ar isadeiledd." |
| "Gyda chynnydd yn y boblogaeth sy'n heneiddio, byddwn yn disgwyl gweld rhywfaint o ffocws ar sut y byddai hyn yn cael ei reoli." | "Mae Amcan 4 yn arbennig o wael, gan ganolbwyntio ar "fentrau" annelwig leihau carbon, yn hytrach nag ystyried y darlun ehangach o golli bioamrywiaeth." |

| | |
|---|---|
| "Mae'n iawn i gael yr amcanion hyn ond mae angen eu cyflawni fel arall mae'r cyfan yn aer poeth yn enwedig llygredd gyda Poppit ac Aberystwyth y gwaethaf ar gyfer all-lifau carthffosiaeth yng Nghymru sy'n wirioneddol warthus yn enwedig gyda'n poblogaeth o ddolffiniaid a llamidyddion sy'n denu twristiaeth i'r ardal." | "Dylai'r amcan ar gyfer datgarboneiddio hefyd gyfeirio at yr argyfwng bioamrywiaeth." |
| "Ydw ond dydyn nhw ddim yn mynd yn ddigon pell. Mae angen ailwampio ein harferion amaethyddol yn llwyr er mwyn gwella iechyd, mae sicrwydd bwyd yn dibynnu ar hyn hefyd. Mae angen iddo fod yn lleol ac yn gynaliadwy." | "Mwy o ddosbarthiadau ymarfer corff cynhwysol i bobl ag anableddau, mynediad i'r pwll lleol i bobl anabl, bysiau a fydd yn stopio yn y ganolfan hamdden, mannau parcio i bobl anabl yng nghanolfan hamdden Teifi." |

## C5: Ydych chi'n cytuno gyda'r cynlluniau i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi yn eich ardal leol?

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr, 85% neu 29 o ymatebion, yn cytuno â'r cynlluniau i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi yn eu hardal leol. Dywedodd y 15% neu 5 o ymatebwyr sy'n weddill nad oeddent yn cytuno â'r cynlluniau. Mae'r rhesymeg y tu ôl i'r atebion hyn yn y cwestiwn canlynol.




## C6: Unrhyw sylwadau?

Manteisiodd pedwar o'r pum ymatebwr nad oedd yn cytuno â'r cynlluniau i fynd i'r afael â thlodi yn eu hardal leol ar y cyfle i egluro eu rhesymau yng nghwestiwn 6, er nad oedd unrhyw thema i'r sylwadau. Er enghraifft, roedd un sylw yn canolbwyntio ar yr economi leol gan nodi bod angen "swyddi sy'n talu'n well yn y Sir", tra bod un arall yn feirniadol oherwydd prisiau rhentu uchel yn y Sir, gan nodi eu bod yn "warthus". Dywedodd ymatebwr arall nad oedd yn glir beth fydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei wneud mewn gwirionedd o ran yr amcan hwn a dylid gwneud hyn yn gliriach.

Roedd un ymateb manwl hefyd yn rhoi awgrymiadau ar gyfer y targedau y dylid eu mesur a'u hasesu o dan yr amcan hwn. Roedd yr awgrymiadau hyn yn cynnwys darparu cyflogaeth fwy hyblyg, gwella a buddsoddi mewn seilwaith digidol, canolbwyntio ar gadw llyfrgelloedd a gwasanaethau cyhoeddus ar

agor er mwyn i bobl allu dysgu, ac ymrwymo i gynnig hyfforddiant sgiliau digidol i'r henoed. Mae crynodeb o'r ymatebion hyn i'w weld yn y tabl isod.

<table>
<tr><th colspan="2">Sampl o'r Sylwadau</th></tr>
<tr><td>"Mae hwn yn blaster glynu. Mae angen swyddi sy'n talu'n well yn y Sir ar gyfer pobl dlawd mewn gwaith, nid is-grwpiau ac ymgynghoriadau."</td><td rowspan="3">Dyw galw'r rhain yn "gynlluniau" ddim yn iawn. Does dim unrhyw amcanion na thargedau pendant yn y ddogfen hon y tu hwnt i ffurfio partneriaeth gyda grwpiau. Hefyd, nid yw'r cwestiwn uchod yn cysylltu'n union gydag geiriad yr amcan yn y ddogfen, felly rwy'n cymryd yn ganiataol eich bod yn cyfeirio at amcan 1. Dyma fy awgrymiadau ar gyfer rhai targedau y gellir eu mesur a'u hasesu:<br>a) Darparu cyflogaeth fwy hyblyg o fewn y Cyngor i weithredu fel cyflogwr blaenllaw o ran gweithio hyblyg.<br>b) Gwella a buddsoddi mewn seilwaith digidol i wella gallu pobl i weithio'n hyblyg yng Ngheredigion. Bydd hyn yn lleihau unigedd mewn cymunedau a gallai wella cyfleoedd, yn enwedig i bobl iau yn y sir.<br>c) Yn hytrach na "nodi bylchau sgiliau" dylid canolbwyntio ar gadw ein llyfrgelloedd a'n gwasanaethau cyhoeddus ar agor fel bod unigolion sydd heb eu hadnabod yn gallu cael mynediad at ddysgu, nid dim ond y bobl rydych chi'n eu "adnabod".<br>d) Ymrwymo i gynnig hyfforddiant sgiliau digidol i bobl oedrannus sy'n aros yn y sir, fel nad ydynt yn cael eu hynysu oddi wrth weddill cymdeithas wrth iddynt heneiddio."</td></tr>
<tr><td>"Mae ffyrdd yn arwain at ddatblygu sy'n lleihau tlodi. Mae prisiau rhent yn warthus yn y sir hon."</td></tr>
<tr><td>"Nid yw'n glir beth fydd y BGC yn ei wneud mewn gwirionedd, oni bai bod hyn wedi'i gynnwys yn yr amcan economi gynaliadwy."</td></tr>
</table>

Ymhlith yr ymatebwyr oedd yn cytuno â'r cynlluniau i fynd i'r afael â thlodi, nid oedd unrhyw themâu a gododd dro ar ôl tro ymhlith eu hatebion ysgrifenedig, yn hytrach cyflwynwyd amrywiaeth o awgrymiadau gwahanol. Canolbwyntiodd un ymatebwr ar yr amgylchedd a'r effaith y byddai teithio gwyrddach yn ei chael. Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai addasu i ffordd o fyw wyrddach gyda llai o geir a'r costau sy'n gysylltiedig â hynny, ynghyd â gwella trafnidiaeth gyhoeddus ac annog pobl i rannu ceir, yn "cael effaith arwyddocaol ar dlodi".


Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys darparu gofal plant ychwanegol i bobl a hoffai ddychwelyd i'r gwaith, hyrwyddo mannau cynnes oherwydd yr argyfwng costau byw, a gellid gwneud mwy i hyrwyddo llyfrgelloedd sy'n cynnig Wi-Fi, ardaloedd astudio a mannau cynnes. Codwyd rhai pryderon penodol hefyd, megis teuluoedd sy'n byw y tu allan i ddalgylchoedd Dechrau'n Deg yn methu â chael mynediad at wasanaethau Dechrau'n Deg ac yn debygol o brofi tlodi cynyddol wrth i gostau byw barhau i gynyddu. Cafwyd sylwadau cyffredinol hefyd bod angen dweud mwy am bobl hŷn yn y gymuned a sut mae tlodi yn effeithio arnynt. Ceir sampl o'r sylwadau hyn yn y tabl canlynol.

| Sampl o'r Sylwadau | |
|---|---|
| "Yn fy mhrofiad i, byddai menter i gael pobl allan o'u ceir ac addasu i ffordd fwy gwyrdd o fyw yn cael effaith arwyddocaol ar dlodi. Rwy'n gwybod am lawer o bobl sy'n gweithio amser llawen (neu fwy!) ac sy'n dal i fod mewn tlodi oherwydd bod y gost o redeg car mor uchel (ynghyd â'r argyfwng costau byw). Mae angen i ni addasu ein ffordd o fyw nawr ar gyfer y dyfodol a chael cymhellion ariannol neu fathau eraill o gymorth (gofal plant, credydau treth gwaith ac ati) i annog pobl i gael gwared ar eu ceir. Byddai hynny yn rhoi llawer mwy o incwm gwario i bobl ei ddefnyddio yn ein heconomi leol. Byddai trafnidiaeth gyhoeddus well yn ffactor allweddol o ran pa mor ymarferol yw hyn. | "Buddsoddi mewn mwy o ofal plant am ddim i bobl a hoffai ddychwelyd i'r gwaith ond sy'n gweld bod cost gofal plant yn golygu eu bod yn colli arian trwy weithio." |
| | "Rydw i wedi gweld llawer o hyrwyddo mannau cynnes yn y Cyngor sy'n dda yn enwedig gyda chostau byw yn codi. Efallai y gellid gwneud mwy hefyd i hyrwyddo llyfrgelloedd y sir sy'n cynnig lle cynnes, Wi-Fi am ddim, mannau astudio ac ati, ond hefyd cyfoeth o adnoddau rhad ac am ddim eraill." |
| | "Mae tlodi hefyd yn effeithio ar yr henoed, does dim llawer yn cael ei ddweud amdanyn nhw, costau gwresogi yn arbennig." |
| "Mae Aber-porth yn ardal ddifreintiedig gydnabyddedig; byddai rhai teuluoedd yn elwa o allu cael mynediad at wasanaethau Dechrau'n Deg ond heb eu cynnwys yn y dalgylch. Gyda chostau byw yn cynyddu a llai o arian gwario bydd lefelau uchel o dlodi mewn gwaith yn cynyddu; mae'n bwysig eu bod nhw'n cael mynediad at ofal plant cofrestredig er mwyn iddynt allu elwa o gynlluniau cymorth gofal plant. Mae Cyngor Cymuned Aber-porth yn mynd i ystyried ffyrdd o gefnogi teuluoedd i gael mynediad at weithgareddau ar ôl ysgol trwy gefnogi grwpiau cymunedol lleol i ddarparu gwasanaethau. Bydd Cyngor Cymuned Aber-porth yn parhau i helpu rheolwyr Neuadd Bentref Aber-porth i gyflawni prosiectau cymunedol er budd trigolion." | "Ond dydyn nhw ddim yn mynd yn ddigon pell, byddai cefnogi busnesau lleol i ddiwallu anghenion lleol, yn enwedig ym myd amaethyddiaeth yn creu economi fwy cylchol. Lle nad oes arian mae'n anodd iawn cyflawni pethau. Nid yw banciau yn benthyca lle mae angen bellach. Gallai'r llywodraeth fenthyca yn debyg i fenthyciadau myfyrwyr i wella cylchrediad arian yn yr economi gylchol, fel bod anghenion yn gallu cael eu diwallu." |

### C7: Ydych chi'n cytuno gyda'r cynlluniau i helpu i adeiladu economi gynaliadwy er lles pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Ngheredigion?

Roedd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr i'r arolwg (91% / 34 o ymatebwyr) yn cytuno â'r cynlluniau i helpu i adeiladu economi gynaliadwy er lles pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Ngheredigion (Amcan Llesiant 1). Nid oedd cyfran fach o ymatebwyr yn cytuno (6%/2 o ymatebwyr), tra bod 3% wedi gadael y cwestiwn heb ei ateb.

C7. Ydych chi'n cytuno gyda'r cynlluniau i helpu i adeiladu economi gynaliadwy er lles pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Ngheredigion?




## C8: Unrhyw sylwadau?

Rhoddodd ychydig o dan hanner (41%) yr ymatebwyr sylwadau pellach i gwestiwn 7, a oedd yn gofyn a oeddent yn cytuno â'r cynlluniau i helpu i adeiladu economi gynaliadwy er lles pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Ngheredigion. Er bod yr ymatebion ysgrifenedig yn amrywio, gellid grwpio sylwadau o dan dair thema, gan gynnwys:

- Awgrymiadau i newid/amrywio ffocws yr uchelgeisiau o dan Amcan Llesiant 1 *(e.e., symud oddi wrth roi sylw ar sgiliau ac addysg i ganolbwyntio ar gyflog gwell).*
- Awgrymiadau ar sut i gyfrannu at economi gynaliadwy *(e.e. darparu cymorth gwell i fusnesau newydd, cefnogi siopau annibynnol, caffael yn lleol, adeiladu cadwyni cyflenwi byr, a chreu cymhellion i bobl ifanc aros yn yr ardal).*
- Pryderon ynglŷn â materion economaidd o fewn y Sir *(e.e. natur wledig, mynediad at wasanaethau, diffyg tai fforddiadwy ac incwm isel).*

Rhoddir sampl o'r sylwadau yn y tabl isod:

| Sampl o'r Sylwadau | |
|---|---|
| "Mae lefelau sgiliau ac addysg eisoes yn uchel; mae'n ymwneud â'r math cywir o sgiliau a chyflog gwell." | "Mae angen i gymuned gynaliadwy allu cadw ei phobl ifanc ac mae diffyg tai fforddiadwy yn cael effaith negyddol..." |
| "Mae cyfle mawr yma i ail-hyfforddi pobol ar gyfer economi werdd." | "Angen mwy o bwyslais ar adeiladu cadwyni cyflenwi BYR ac ar ddefnyddio adnoddau lleol i ateb anghenion lleol, a thrwy hynny ychwanegu gwerth." |
| "Rhowch fwy o gefnogaeth i'r rhai sy'n dechrau busnes, benthyciadau mwy hael, cyfraddau busnes is a chymorth gyda rhentu siopau. Peidiwch â gadael i fwy o siopau cadwyn ddod i Geredigion, yn hytrach cefnogwch siopau annibynnol sy'n cadw arian i gylchredeg yn lleol." | "Mae canfyddiad bod byw yng Ngheredigion / cefn gwlad yn rhatach na byw yn y ddinas. Ond, o brofiad, dyw hynny ddim yn wir. Mae hyn i'w weld a'i deimlo gyda thrafnidiaeth gyhoeddus a hygyrchedd yn arbennig – mae'n rhaid i chi deithio mewn car i bobman oherwydd does dim bysiau rheolaidd..." |

Ymhellach, gofynnwyd am adborth ysgrifenedig yn ymwneud â chwestiwn saith (ar Amcan Llesiant 1) gan bartneriaid BGC (aelodau statudol a sefydliadau cyfranogol a wahoddwyd) ac o weithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid (fel ymgysylltu ag ysgolion cynradd ac uwchradd Ceredigion). Mae adborth wedi cael ei grwpio o dan dair thema allweddol, sy'n cynnwys:

- Ystyriaethau pellach o uchelgeisiau presennol
- Mwy o fanylion ar sut y caiff yr uchelgeisiau eu mesur/meincnodi
- Rhagor o fanylion/awgrymiadau ar sut i gyflawni'r uchelgeisiau


| Themâu allweddol | Crynodeb o'r sylwadau |
|---|---|
| Ystyried uchelgeisiau presennol ymhellach | • Angen sicrhau bod egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu rhoi ar waith wrth i'r BGC gyflawni uchelgeisiau Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.<br>• Awgrym i wneud cysylltiad cliriach rhwng Bargen Twf Canolbarth Cymru a fframwaith economaidd rhanbarthol ar draws ynni, yr economi a sgiliau.<br>• Awgrym i gynnwys camau sy'n mynd i'r afael â goblygiadau posibl Brexit ar ffermio cynaliadwy.<br>• Awgrym i gynnwys caffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol er budd y gadwyn gyflenwi leol.<br>• Plant ysgol uwchradd am gael mwy o gyfleoedd i ddysgu sgiliau ymarferol, mwy o gyfleoedd ar gyfer profiad gwaith a thrafnidiaeth gynaliadwy.<br>• Plant ysgol gynradd am weld swyddi da yn yr ardal a fydd yn eu helpu i aros yng Ngheredigion, heb unrhyw fwlch cyflog rhwng y rhywiau a chyda chyflog gwell yn y sector ffermio ac addysg. |
| Manylion pellach ar sut y caiff yr uchelgeisiau eu mesur/meincnodi | • Gwybodaeth am sut y bydd cadwyni cyflenwi sy'n fwy effeithlon yn cael eu mesur.<br>• Mynegwyd pryderon ynghylch y diffyg mesurau i feincnodi cynnydd ar uchelgais a chamau gweithredu i ysgogi cyfranogiad mwy cynhwysol mewn gwaith teg, cynaliadwy. |
| Rhagor o fanylion/awgrymiadau ar sut i gyflawni uchelgeisiau | • Manylion pellach sy'n nodi sut y bydd yr uchelgais o waith teg yn cael ei gyflawni.<br>• Rhagor o wybodaeth am sut y bydd y BGC yn cyflawni argymhellion CLES ac a ydynt yn cyd-fynd â blaenoriaeth Economi Sylfaenol ac yn cefnogi busnesau lleol. |

### C9: Ydych chi'n cytuno gyda'r cynlluniau i helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag iechyd corfforol a meddyliol yn eich cymuned?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (85%/ 29 o ymatebwyr) yn cytuno â'r cynlluniau i helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag iechyd corfforol a meddyliol yn eu cymuned (sy'n ymwneud ag Amcan Llesiant 2 yn y Cynllun Llesiant). Roedd y 15% arall o ymatebwyr (5 ymatebwr) yn anghytuno â'r cynlluniau i helpu i leihau anghydraddoldebau. Er bod cyfran uchel o ymatebwyr yn cytuno â'r cynlluniau, roedd yn un o'r meysydd lle roedd barn ymatebwyr ychydig yn fwy rhanedig. Roedd y

canlyniad hwn yn debyg i'r ymateb cyffredinol i gwestiwn pedwar, yn ymwneud â'r cynlluniau i fynd i'r afael â thlodi yn yr ardal.

**C9. Ydych chi'n cytuno gyda'r cynlluniau i helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag iechyd corfforol a meddyliol yn eich cymuned?**




## C10: Unrhyw sylwadau?

Roedd tua dwy ran o bump o'r ymatebwyr (38%/13 o ymatebwyr) wedi cyflwyno sylwadau i gwestiwn 9 a ofynnodd a oeddent yn cytuno â'r cynlluniau i helpu i leihau'r anghydraddoldebau ynghylch iechyd corfforol a meddyliol yn eu cymuned. At hynny, gofynnwyd am adborth ysgrifenedig yn ymwneud â chwestiwn naw (ar Amcan Llesiant 2) gan bartneriaid BGC (aelodau statudol a sefydliadau cyfranogol a wahoddwyd) ac o weithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid (fel ymgysylltu ag ysgolion cynradd ac uwchradd Ceredigion).

Roedd adborth yn amrywio; fodd bynnag, roedd y consensws cyffredinol yn croesawu'r ffocws ar hyrwyddo presgripsiynu cymdeithasol, gwyrdd a glas yn y Cynllun drafft, a ddisgrifiwyd fel "uchelgais gwirioneddol flaengar".

Cyflwynwyd awgrymiadau ar ychwanegiadau pellach i Amcan Llesiant 2. Roedd yr awgrym mwyaf cyffredin (yn yr adborth i'r arolwg a'r adborth ysgrifenedig gan bartneriaid a rhanddeiliaid) yn ymwneud â'r angen i gynnwys trafnidiaeth gynaliadwy a theithio llesol yn y cynllun, oherwydd y manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac iechyd sy'n gysylltiedig â hynny. Cyfeiriwyd yn benodol at wella a chynnal a chadw llwybrau troed a phalmentydd Ceredigion, Llwybr Arfordir Cymru, mynediad at wasanaethau a'r angen am drafnidiaeth gyhoeddus a chynaliadwy gwell a mwy hygyrch.

Yn ogystal, gwnaed argymhellion ar feysydd i'w datblygu ymhellach o dan Amcan Llesiant 2. Y teimlad cyffredinol yw bod angen rhoi mwy o sylw i'r mater o dai digonol a fforddiadwy yn y Cynllun drafft. Yn ogystal, nodwyd pwysigrwydd sicrhau fod tai sydd wedi'u cysylltu â gwasanaethau a thrafnidiaeth gynaliadwy yn cael ei ystyried. Nododd plant ysgol hefyd bwysigrwydd tai fforddiadwy a darparu tai gwarchod i'r digartref.

Yn ogystal, roedd ymatebwyr i'r arolwg wedi tynnu sylw at bwysigrwydd bwyd lleol, maethlon a chynaliadwy. Roedd cyfeiriadau penodol at ffactorau i leihau anghydraddoldebau bwyd, megis cydnerthedd a lleihau ein dibyniaeth ar y farchnad fwyd fyd-eang.

Roedd sylwadau llai cyffredin, fodd bynnag, yr un mor bwysig yn cynnwys:

- Awgrym i gynyddu ymgysylltiad y BGC â chymunedau o'r cychwyn cyntaf i gefnogi ei ddealltwriaeth eu hunain o feithrin cydnerthedd a'u cyfraniad posibl at hynny.
- Awgrym i gynnwys camau gweithredu penodol i fynd i'r afael â'r uchelgais presgripsiynu cymdeithasol
- Awgrym i fireinio uchelgais 2.3 (sy'n ymwneud â bwyd) i sicrhau bod y gweithgareddau a geisir yn glir ac yn gyraeddadwy.
- Awgrym i adolygu'r ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i ychwanegu cyfeiriad at chwaraeon a hamdden, gan gynnwys cyfleusterau awyr agored a dan do.

Ymhlith plant ysgol roedd y materion a'r meysydd pwysicaf i'w hystyried yn ymwneud ag Amcan Llesiant 2 yn cynnwys:

- Gwarchod yr amgylchedd naturiol yn well (gan gynnwys mwy o arferion a mentrau amgylcheddol e.e. plannu coed, mwy o gyfleoedd gweithio gwyrdd, garddio ac ati).
- Gostyngiad mewn taflu sbwriel (awgrymiadau'n cynnwys – dirwyon taflu sbwriel, addysg bellach ar y niwed a achosir trwy daflu sbwriel, darpariaeth well o finiau ac ati)
- Cymorth gwell i bobl ar incwm isel/sy'n profi caledi (e.e. bwyd ffres mwy fforddiadwy, mwy o fanciau bwyd)
- Mwy o gymorth i ddeall cyllid a chyllidebau (e.e. addysg ar reoli cyllidebau, morgeisi, dyled ac ati).


Rhoddir sampl o'r sylwadau o'r arolwg ac adborth ysgrifenedig gan randdeiliaid a phartneriaid yn y tabl isod.

| Sampl o'r Sylwadau | |
|---|---|
| "Yn hytrach na" phresgripsiynu "mannau gwyrdd, beth am atal yr erydu parhaus yn ansawdd ein mannau gwyrdd? Er enghraifft, mae llwybrau cyhoeddus yn rhan allweddol o'n seilwaith mannau gwyrdd ac yn cael eu hesgeuluso'n ofnadwy gyda thanfuddsoddiad ofnadwy..." | "I raddau – er y dylai olygu helpu pobl i helpu eu hunain." |
| "Cytuno, ond mae angen llawer mwy o lwybrau troed, sy'n hygyrch. Mae'n rhaid i chi deithio hanner awr i gael llwybr sydd ddim yn mynd trwy gae neu sydd wrth ymyl ffordd brysur." | "Dechrau mwy o brosiectau tyfu bwyd yng Ngheredigion, gweithio gyda ffermwyr i gynhyrchu pethau sylfaenol fel ceirch a gafodd eu tyfu yma yn hanesyddol, lleihau'r ddibyniaeth pobl ar fwyd sy'n cael ei hedfan i mewn a thorri carbon yn y gadwyn fwyd. Rhaid i hyn gael ei gefnogi gan sefydliadau lleol sy'n comisiynu bwyd o dyfwyr lleol..." |
| "Mae'n rhaid i ni gydnabod yn gyntaf yr effaith y mae bwyd/maeth yn ei chael ar iechyd corfforol a meddyliol – mae gwrtaith artiffisial sy'n defnyddio llawer o danwydd ffosil yn difetha iechyd planhigion a'r rhai sy'n eu bwyta sy'n denu'r defnydd o fioladdwyr mewn ffermio a'r fasnach | "Yn falch o weld Partneriaeth Bwyd Cynaliadwy ond mae angen gweithredu ar bresgripsiynu gwyrdd a chymdeithasol yn ogystal ag uchelgeisiau e.e. gweithio gyda ac adeiladu ar brosiect Trywydd Iach Biosffer Dyfi." |

| | |
|---|---|
| fferyllol ym maes iechyd y cyhoedd sy'n effeithio ar yr amgylchedd ehangach..." | |
| "Nid yw Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (2023-28) yn sôn fawr ddim am drafnidiaeth gynaliadwy, sy'n cael effaith arwyddocaol ar gymunedau gwledig o safbwynt llesiant a datgarboneiddio, a rôl y BGC i ddiogelu a gwella gwasanaethau gwledig er budd ei drigolion." | "Mae'r broblem o stoc tai annigonol yng Ngheredigion yn cael sylw ar dudalen 13 o'r Cynllun drafft. Mae pawb yn gwybod bod tai annigonol nid yn unig yn ffactor mewn costau ynni uwch, ond mae hefyd wedi'i gysylltu'n agos iawn ag anghydraddoldebau iechyd a chanlyniadau iechyd gwaeth... gellid rhoi mwy o sylw i dai." |

### C11: Ydych chi'n cytuno gyda'r cynlluniau i helpu i leihau ôl troed carbon Ceredigion?

Roedd lefel gryf o gefnogaeth hefyd i leihau ôl troed carbon Ceredigion gyda 91% o'r rhai a ymatebodd yn nodi eu bod yn cytuno â'r flaenoriaeth hon. Mae'r ymatebion i gwestiwn 15 lle gofynnwyd i ymatebwyr nodi pa rai o'r amcanion oedd bwysicaf, yn awgrymu bod y flaenoriaeth hon yn cael ei hystyried yn un o'r heriau mwyaf i fynd i'r afael â hi yn y dyfodol. Roedd dau ymatebwr neu 9% yn anghytuno â'r amcan hwn, a thrafodir eu rhesymau yn C12 isod.




### C12: Unrhyw sylwadau?

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr wedi manteisio ar y cyfle i bwysleisio pwysigrwydd yr amcan hwn a chynnig awgrymiadau ar sut y gellir cyflawni hyn. Er enghraifft, roedd galwadau pellach am fwy o drafnidiaeth gyhoeddus a thrafnidiaeth well, yn enwedig gwasanaethau bws gwledig ac ymdrechion i leihau prisiau tocynnau neu ddarparu gwasanaethau am ddim â chymhorthdal. Cafwyd galwadau hefyd am fwy o ymdrech i gael cynlluniau ynni gwyrdd a defnyddio ynni adnewyddadwy fel un ffordd o helpu i gyflawni'r amcan hwn. Awgrymodd un ymatebwr y dylid ategu hyn gyda'r cyllid sydd ar gael i'r holl drigolion. Roedd dau ymatebwr yn cefnogi'r amcan arfaethedig i leihau ôl troed carbon y Sir, ond nid oeddent yn teimlo bod digon o eglurder ynghylch sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni, ac nid oedd y cynlluniau'n mynd yn ddigon pell i leihau allyriadau carbon. Awgrymwyd bod angen addysg bellach i sicrhau bod trigolion yn deall eu hôl troed carbon.


Fodd bynnag, nid oedd dau ymatebwr yn cytuno â'r amcan hwn. Roedd eu gwrthwynebiadau yn ddeublyg – yn gyntaf nid oedd yn glir sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni heb gael effaith ddilynol ar rai o'r amcanion eraill. Yn ail, nid yw'r ymrwymiad i ddatgarboneiddio yn gynllun ynddo'i hun a dylai'r BGC fod yn ymrwymo i gymryd camau gweithredu go iawn i ddatgarboneiddio a gwella bioamrywiaeth yn y Sir. Mae wedi darparu cyfres o gamau gweithredu posibl y gellid eu hystyried i gyflawni hyn. Mae'r tabl isod yn rhoi sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd.

| Sampl o'r Sylwadau | |
|---|---|
| "Mae'n bwysig iawn meddwl yn y tymor hir am y mater hwn a gall hyn gynnwys penderfyniadau dadleuol." | "Bydd creu mwy o gynlluniau ynni gwyrdd sydd ym mherchnogaeth leol a all cymorthdalu costau trydan ar gyfer ein trigolion yn help enfawr i'n heconomi. Ar hyn o bryd rydym yn cael ein cosbi am fyw "yn bell o'r grid" pan fyddwn yn allforio trydan net o Geredigion." |
| "Rwy'n credu y bydd hyn yn heriol o ystyried gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus cyfyngedig. Byddai hwb i ynni adnewyddadwy yn cael ei groesawu gyda chyllid i bawb – nid dim ond y rhai sy'n hawlio budd-daliadau." | "Mae gan Gynghorau Tref a Chymuned gyfrifoldeb o dan Ddeddf Amgylchedd Cymru i gefnogi bioamrywiaeth yn eu cymunedau. Byddai trefniadau gweithio mewn partneriaeth gwell i ddatblygu prosiectau i warchod a gwella ein cymunedau yn fuddiol. Ymgysylltu gwell ag ysgolion a chymunedau ar ailgylchu; effeithlonrwydd ynni, bioamrywiaeth. Mae llygredd ar Afon Teifi yn bryder. Mae ystyried ffosffadau a'r effaith ar geisiadau cynllunio yn fater sydd angen ei ddatrys." |
| "Does dim digon o fanylion yma – ble a sut y byddwch chi'n cyflawni datgarboneiddio a sero net erbyn 2030?" | "Nid yw cynlluniau'n mynd yn ddigon pell, fe ddylen ni fod yn addysgu pobl am leihau eu hôl troed carbon a darparu trafnidiaeth gyhoeddus." |

## C13: Ydych chi'n cytuno gyda'r cynlluniau i'ch helpu i deimlo'n ddiogel ac wedi'ch cysylltu â diwylliant yn eich ardal leol?

Roedd lefel yr un mor uchel o gefnogaeth ar gyfer yr amcan arfaethedig terfynol ynghylch teimlo'n ddiogel ac wedi'u cysylltu â diwylliant. Yn gyffredinol, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r amcan gyda dau ymatebwr neu 9% yn anghytuno.

**C13. Ydych chi'n cytuno gyda'r cynlluniau i'ch helpu i deimlo'n ddiogel ac wedi'ch cysylltu â diwylliant yn eich ardal leol?**





## C14: Unrhyw sylwadau?

Er bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r amcan arfaethedig hwn, roeddent wedi achub ar y cyfle yn y sylwadau ysgrifenedig i fynegi rhai pryderon penodol sydd ganddynt ynghylch diogelwch a diwylliant. Pwysleisiwyd pwysigrwydd hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, yn ogystal â hyrwyddo grwpiau eraill nad ydynt yn gysylltiedig â diwylliant. Codwyd nifer o bryderon penodol gwahanol hefyd – codwyd pwysigrwydd mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb fel rhywbeth sy'n hanfodol i deimlo'n "ddiogel" yng nghymunedau Ceredigion, gofynnwyd am ragor o gymorth i ofalwyr a'u teuluoedd ac y dylai addysg plant aros yn y gymuned leol a bod dysgu yn lleol yn hanfodol bwysig. Ceir sampl o'r sylwadau hyn yn y tabl isod.

| Sampl o'r Sylwadau | |
|---|---|
| "Dwi'n teimlo'n saff ond mae angen meithrin diwylliant Cymru." | "Mae Ceredigion yn lle cymharol ddiogel i fyw. Mae'r defnydd parhaus o'r Gymraeg a chyfleoedd i hybu diwylliant yn ein cymunedau yn bwysig." |
| "Fyddwn ni ddim yn teimlo'n 'saff' nes bod gan bawb ddigon i fyw arno – byddai angen i chi fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi, gallai incwm cyffredinol ddatrys hyn. Mae cyfleoedd i gwrdd yn rhy ddrud, dim trafnidiaeth." | "Mae Canolfannau Gofal Dydd ar gau, does dim byd ar gyfer yr henoed/pobl â dementia/pobl anabl. Mae gwaharddiad/gwahaniaethu o ran y cymorth i ofalwyr nad ydynt yn hawlio oherwydd eu bod yn ceisio gwneud bywoliaeth trwy fod yn hunangyflogedig a pharhau i ofalu am eu hanwyliaid yr un pryd a bod gartref. Mae gwasanaeth staff wrth gefn/cyflenwi yn fyr, yn annibynadwy ac nid yw'n rheolaidd." |
| "Mae eich holl amcanion yn cynnwys partneriaid, ond dydyn nhw ddim yn amlinellu camau gweithredu neu amcanion penodol gyda chanlyniadau mesuradwy." | "Mae yna lawer mwy o grwpiau diwylliannol yng Ngheredigion sy'n haeddu cefnogaeth na dim ond y rhai sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg. Rwy'n gobeithio bod hynny'n cael ei adlewyrchu yn y cynllun gweithredu." |

## C15: Pa un o'r amcanion llesiant a awgrymir yw'r pwysicaf i chi?

Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio, yn nhrefn pwysigrwydd, pa un oedd bwysicaf iddynt. Yr amcan i'w **gyflawni mentrau datgarboneiddio** yng Ngheredigion gafodd y flaenoriaeth uchaf o bleidleisiau gydag 8, ac yna'r uchelgeisiau ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau yng Ngheredigion gyda 5, fel y dangosir yn y siart isod.




Fodd bynnag, nid yw hyn yn ystyried y safleoedd is. Felly defnyddiwyd system bwysoli syml i sgorio pob un o'r amcanion arfaethedig trwy luosi'r nifer ym mhob safle gyda sgôr o 5 i 1, gyda 5 yr uchaf. Dengys y canlyniadau mai **cydweithio i gyflawni economi gynaliadwy** oedd yr amcan a gafodd ei nodi fel y brif flaenoriaeth, ac yna'r amcan **mynd i'r afael â thlodi** ac yna **lleihau anghydraddoldebau**. Er mai cyflawni mentrau datgarboneiddio gafodd y nifer fwyaf o bleidleisiau prif flaenoriaeth, roedd ei sgôr cyffredinol yn llawer is gan iddo hefyd gael nifer uchel o bleidleisiau 4 a. Dangosir y sgorau wedi'u pwysoli cyffredinol yn y tabl isod.

| Ymatebion wedi'u Pwysoli | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ▼ Amcan Arfaethedig Safle ▶ | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | Cyfanswm sgôr |
| Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau economi gynaliadwy sydd o fudd i bobl leol ac yn adeiladu ar gryfderau Ceredigion. | 4 | 8 | 3 | 4 | 3 | 72 |
| Cydweithio i gyflawni uchelgeisiau cyffredin ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau yng Ngheredigion oherwydd gall y rhain gael effaith ar draws y pedwar piler llesiant – llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. | 5 | 6 | 5 | 3 | 0 | 70 |
| Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i leihau anghydraddoldebau yn ein cymunedau a defnyddio atebion cymdeithasol a gwyrdd i wella iechyd corfforol a meddyliol. | 2 | 4 | 10 | 4 | 1 | 65 |
| Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i ddarparu mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol. | 8 | 0 | 1 | 6 | 6 | 61 |
| Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i alluogi cymunedau i deimlo'n ddiogel ac yn gysylltiedig a byddwn yn hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol ac yn cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. | 4 | 2 | 1 | 3 | 10 | 47 |

### C16: Beth allwn ni ei wneud a fyddai'n eich galluogi chi, neu grwpiau rydych chi'n ymwneud â nhw, i helpu i wella llesiant yng Ngheredigion?


Yna cafodd ymatebwyr gyfle i nodi gweithgareddau a grwpiau ychwanegol a allai helpu i wella llesiant yn y Sir. Manteisiodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ar y cyfle hwn i gyfleu amrywiaeth o syniadau ac awgrymiadau gwahanol a grynhoir yn y tabl isod. Mae tri thuedd allweddol yn dod i'r amlwg:

- Roedd galwadau cynyddol am trafnidiaeth gyhoeddus well, yn enwedig gwasanaethau bysiau a buddsoddiad mewn beicio.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd grwpiau a digwyddiadau cymunedol o ran cysylltu pobl i gynnal iechyd a llesiant. Nodwyd Datblygu Cymunedol Seiliedig ar Asedau fel un ffordd o adeiladu cymunedau.
- Yr angen i gefnogi pobl iau i gyflawni eu dyheadau.

| Awgrymiadau ar gyfer Gwella Llesiant yng Ngheredigion | | |
|---|---|---|
| • Cefnogi pobl ifanc | • Ymrwymo i Ddatblygu Cymunedol yn seiliedig ar Asedau a defnyddio adeiladwyr cymunedol a chyllidebu cyfranogol | • Digwyddiadau cymunedol. Cysylltu pobl. Cysylltu anghenion unigolion â digwyddiadau cymdeithasol i gynnal llesiant iach. |
| • Datblygu hybiau cymunedol | • Ariannu'r gwasanaethau sylfaenol yn gywir, megis priffyrdd ac amgylcheddol | • Diffyg cyfleusterau hamdden a chwaraeon a'r pellteroedd y mae angen eu teithio oherwydd natur wledig yr ardal |
| • Gwelliannau i fynediad i'r anabl | • Gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus er mwyn i bawb allu cymryd rhan | • Gwella trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn cael llawer llai o geir ar y ffordd. Buddsoddi mewn beiciau cargo gwyrdd ar gyfer busnesau bach a pedestreiddio trefi twristaidd i'w gwneud yn fwy deniadol. |
| • Cadw llyfrgelloedd ar agor | • Gallai aelodau staff o sefydliadau BGC gael amser y gallant ei ddefnyddio i wirfoddoli dros eu cymuned heb aberthu cyflog | • Parhau i ariannu gwaith i gefnogi mynediad i gefn gwlad |
| • Llwybrau cerdded i gysylltu cymunedau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn neu fygis | • Darparu gwasanaeth bws gwell. | • Dosbarthiadau ymarfer corff am ddim mewn neuaddau pentref. |
| • Trafnidiaeth gyhoeddus amgen yn lle'r bws. Ffyrdd mwy effeithiol o gysylltu cymunedau a threfi Ceredigion | • Darparu cyfleusterau hamdden cyfartal ar draws y sir. | • Cyfleusterau hamdden fforddiadwy |
| • Ailagor canolfannau gofal dydd a chael mwy o grwpiau llesiant (er enghraifft cerdded) | • Profiadau gwirfoddoli â chymorth | • Mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw a gostwng prisiau |
| • Cyfathrebu gwell am y mentrau llesiant sydd ar gael | • Benthyciadau fforddiadwy i fuddsoddi a gwneud cymunedau yn fwy cydnerth a hunangynhaliol megis trwy ynni adnewyddadwy, cronfeydd ceir, cynulliadau cymdeithasol a chymorth gyda cheisiadau i gefnogi prosiectau | • Cefnogaeth ar gyfer grwpiau ieuenctid a grwpiau lleiafrifol megis LHDT+, anabl, lleiafrifoedd ethnig, sy'n caniatáu i bobl ddod at ei gilydd a siarad am y newidiadau y mae angen eu gwneud |

### C17: Ydych chi'n hapus â'r ffordd yr ydym wedi ymgynghori â chi heddiw?

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn hapus ar y cyfan â'r ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad. Rhoddodd 29% y sgôr uchaf o 5, roedd 29% wedi rhoi sgôr o 4 ar gyfer yr ymgynghoriad ac roedd 27% wedi rhoi sgôr o 3. Fodd bynnag, roedd tri ymateb wedi rhoi'r sgôr isaf o '1', sef 9%.




### C18: Unrhyw sylwadau?

Manteisiodd nifer fach o ymatebwyr ar y cyfle i roi sylwadau ar y ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad. Roedd rhai wedi'i chael hi'n hawdd ei gwblhau, ond codwyd tri phryder penodol, sef:

- Nid oedd y raddfa pwyntiau 1-5 wedi'i labelu'n glir
- A fyddai trigolion heb fynediad i'r rhyngrwyd yn cael y cyfle i ymateb
- Roedd angen ei hyrwyddo'n well er mwyn sicrhau bod pob grŵp yn cael y cyfle i ymateb, yn enwedig pobl iau.

O'r tri ymatebwr a roddodd sgôr o '1', dim ond un oedd wedi manteisio ar y cyfle i egluro ei resymau. Teimlai fod yr ymgynghoriad yn ddryslyd ac awgrymwyd y dylai'r amcanion arfaethedig fod wedi'u rhifo ac y dylai geiriad yr ymgynghoriad gyd-fynd â chwestiynau'r ymgynghoriad.

### C19: Oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud wrthym?

Roedd y cwestiwn olaf yn un penagored er mwyn i ymatebwyr allu codi unrhyw faterion eraill i'r BGC eu hystyried. Gwnaethpwyd sawl awgrym ychwanegol – unwaith eto codwyd trafnidiaeth gyhoeddus fel rhywbeth hanfodol yn enwedig i bobl iau, yn ogystal â chymorth i ofalwyr fynychu grwpiau cymunedol a hyfforddiant. Cyflwynwyd dau awgrym gwahanol – yn gyntaf y dylai ansawdd dŵr mewn afonydd a moroedd fod yn flaenoriaeth oherwydd y dirywiad a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf ac a fydd yn effeithio ar yr incwm a gynhyrchir gan y rhai sy'n defnyddio'r adnoddau naturiol. Yn ail, bod ysgolion cymunedol, sefydliadau gofal plant a chlybiau ieuenctid yn allweddol i annog cymunedau i gydweithio'n agos.

Roedd y sylw olaf yn pwysleisio'r angen i gadw'r momentwm a'r brwdfrydedd i fynd ar gyfer cyflawni'r Cynllun Llesiant Lleol pan gaiff ei gymeradwyo. Yn arbennig, nodwyd pwysigrwydd cadw'r cyhoedd yn rhan o'r broses a chyfathrebu'n rheolaidd ynghylch yr hyn a gyflawnwyd wrth i'r Cynllun gael ei gyflwyno. Dangosir sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y tabl isod.

| Sampl o'r Sylwadau | |
|---|---|
| "Mae ysgolion cymunedol, sefydliadau gofal plant a chlybiau ieuenctid yn allweddol i annog cymunedau i gydweithio'n agos. Cyflogau isel yw'r ffactor unigol mwyaf sy'n creu draen dawn ymysg pobl ifanc gan arwain at dlodi mewn gwaith. Ni ddylai dyfodol cynaliadwy ddibynnu ar y sector lletygarwch a manwerthu." | "Trafnidiaeth gyhoeddus: mynediad at wasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy ac effeithlon sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc a thrigolion gwrdd â phobl eraill; cael mynediad at wasanaethau; bod yn annibynnol. Blaenoriaeth i gymuned Aber-porth yw cael ysgol sy'n addas i'r diben ac amgylchedd diogel i'n plant allu dysgu." |
| "Mae hwn i'w weld yn gynnig egnïol ar hyn o bryd. Peidiwch â gadael iddo chwythu ei blwc; cadwch y cyhoedd yn rhan o'r peth, gweithredu a rhoi gwybod yn rheolaidd am gyflawniadau." | "Dylai ansawdd y dŵr yn yr afonydd a'r moroedd fod yn flaenoriaeth, mae safonau wedi gwaethygu'n fawr dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae hyn yn cael effaith arwyddocaol ar yr incwm a gynhyrchir gan y rhai sy'n defnyddio'r adnodd naturiol." |
| "Ble mae'r staff cyflenwi i ofalwyr allu mynychu boreau/prynhawniau coffi neu hyfforddiant er eu lles eu hunain? Rwy'n ddiolchgar am yr holiadur hwn i gael dweud fy nweud ar iechyd a gofal cymdeithasol yn y byd go iawn." | |

## Y "Wal Syniadau"

Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cynnwys defnyddio "Wal Syniadau" ar wefan Dweud Eich Dweud Ceredigion. Roedd y Wal Syniadau yn rhoi cyfle i ymatebwyr bostio unrhyw syniadau ac awgrymiadau ychwanegol i wella llesiant. Roedd 15 o sylwadau wedi cael eu postio ac mae'r prif themâu wedi'u crynhoi yn y diagram isod. Nid oedd unrhyw themâu cyffredin wedi dod i'r amlwg, ond cafodd sawl thema a godwyd trwy gydol yr ymarfer ymgynghori hwn ei ailadrodd, yn fwyaf arbennig trafnidiaeth gyhoeddus a darparu cyrsiau Cymraeg i ddechreuwyr.

- Cyrsiau Cymraeg i ddechreuwyr
- Dosbarthiadau ymarfer corff cymdeithasol i bobl sydd wedi ymddeol
- Grwpiau cerdded a llwybrau i bob â nam ar y golwg
- Datblygu mentrau ynni cymunedol
- Plannu coed cymunedol mewn mannau cyhoeddus
- Profion beiciau modur yng Ngheredigion
- Cadw'r llyfrgelloedd ar agor
- Gwasanaeth bws uniongyrchol o ac i Landysul
- Cefnogi gwasanaeth cymorth cam-drin domestig yn y gymuned
- Parcio am ddim yn y trefi
- Garddio a thorri Jac y Neidiwr

## Ymgysylltu ag Ysgolion

### Ysgolion Cynradd

Cynhaliwyd sesiwn gyda chynrychiolwyr o Gyngor Ysgol 13 o ysgolion cynradd Ceredigion ar draws y Sir. Roedd y disgyblion a oedd yn bresennol ym Mlynyddoedd 3,4,5,6 gydag oedrannau'n amrywio o 7 i 11 oed. Roedd pob un o'r disgyblion yn cytuno bod pedwar amcan cyffredinol y Cynllun Llesiant yn faterion pwysig iawn i roi sylw iddynt, ac roedd pawb yn awyddus i barhau â'r berthynas â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a bod yn rhan o ymgynghoriadau yn y dyfodol. Dangosir crynodeb o'r themâu a godwyd isod a nifer y disgyblion sy'n cytuno â phob datganiad mewn cromfachau.

### Mynd i'r Afael â Thlodi ac Economi Gynaliadwy

- Roedd disgyblion am weld cymorth i bobl sydd heb ddigon o arian (x 7)
- Roedd disgyblion am weld swyddi da yn yr ardal a fydd yn eu helpu i aros yng Ngheredigion, heb unrhyw fwlch cyflog rhwng y rhywiau a chyda cyflog gwell yn y sectorau ffermio ac addysg (x 6)
- Roedd disgyblion yn bryderus am gostau byw ac am gael biliau is (x 4)
- Mae disgyblion am sicrhau bod gan bawb gartref (x 4)

### Hinsawdd a Natur

- Mwy o amddiffyn yr amgylchedd naturiol, gan gynnwys rhaglenni plannu coed (x 8)
- Am weld gostyngiad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol: sbwriel (x 6)
- Annog ac addysgu ar arferion ecogyfeillgar (x 4)
- Cynhyrchu a defnyddio mwy o ynni cynaliadwy ac adnewyddadwy i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd (x 4)
- Pryderu am les anifeiliaid (x 3)
- Lleihau ôl troed carbon trwy gefnogi'r economi leol (x 3)

### Diwylliant

- Mae disgyblion am weld treftadaeth ac iaith Cymru yn cael ei hybu mwy (x 4)
- Mae disgyblion am weld gweithredu i atal hiliaeth (x 4)
- Cymunedau mwy cynhwysol (x 4)

### Cymunedau Diogel, Amrywiol a Chydlynol

- Mynediad i gyfleusterau hamdden fforddiadwy (x 13)
- Rhieni yn cael yr amser a'r arian i hwyluso chwarae (x 4)
- Cymunedau mwy diogel (x 2)
- Mwy o glybiau (x 2)
- Cael perthynas iach gyda ffrindiau (x 1)

## Ysgolion Uwchradd

Cynhaliwyd sesiwn debyg gyda thair ysgol uwchradd ar draws y Sir, gyda 29 o ddisgyblion yn cymryd rhan yn amrywio o 11 i 16 oed. Mae'r prif themâu a nodir wedi'u crynhoi isod:

### Byddwn yn lleihau llygredd i wella ansawdd aer, dŵr a'r amgylchedd

- Arferion a mentrau ecogyfeillgar, gan gynnwys ailgylchu, lleihau'r defnydd o blastig a phlannu coed
- Mynediad i fannau gwyrdd
- Trafnidiaeth gynaliadwy
- Atal llygredd ein dyfroedd
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol: sbwriel
- Effeithiau llygredd ar iechyd meddwl

### Byddwn yn helpu i roi'r sgiliau y mae eu hangen arnoch ar gyfer swyddi yn y dyfodol, gan gynnwys swyddi gwyrdd, a darparu mwy o brentisiaethau

- Ni ddylai addysg ganolbwyntio ar y pynciau academaidd yn unig, darparu mwy o gyfleoedd i ddysgu sgiliau ymarferol:
- Gallu dysgu am wahanol fathau o swyddi a chael profiad ohonynt mewn gwahanol ffyrdd

Byddwn yn mynd i'r afael â chaledi a thlodi mewn ymateb i'r argyfwng costau byw

- Rhoi cymorth i bobl sy'n profi caledi a sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at fwyd
- Cefnogaeth i ddeall cyllid a chyllidebau

## Ymgysylltu â Phobl Ifanc

Ymgysylltwyd hefyd â Chyngor Ieuenctid Ceredigion i geisio barn pobl ifanc. Ar draws y pum thema a drafodwyd, cafwyd amrywiaeth eang o awgrymiadau eu gwneud a phryderon eu codi sy'n yn effeithio ar fywydau pobl iau. Ymhlith y thema drawsbynciol Mynd i'r Afael â Thlodi, nid oedd un mater unigol wedi dominyddu'r sgwrs, ond mae ehangder yr awgrymiadau a wnaed yn dangos dealltwriaeth dda o'r heriau a wynebir yn yr economi leol mewn perthynas â thlodi. Un pwynt a godwyd ac sy'n amlwg drwy gydol yr ymarfer ymgysylltu hwn oedd y galw am deithio ar fysiau am ddim neu â chymhorthdal i blant o gartrefi incwm isel. Ceir crynodeb o'r pwyntiau a godwyd ar draws pob un o'r pum thema yn y tablau sy'n dilyn.

Mynd i'r Afael â Tlodi

| | |
|---|---|
| • Cynyddu'r tai cyngor sydd ar gael | • Petrol + disel |
| • Gwersi yn yr ysgol am gynilo arian | • Ysgolion ar agor am fwy o amser ar ôl oriau ysgol |
| • Sgiliau bywyd sy'n helpu gyda chyllid | • Rhywle i fynd ac aros yn gynnes |
| • Adeiladau newydd, mwy effeithlon | • Canolfannau Cymunedol ac elusennau |
| • Inswleiddio gwell | • Cynhyrchion misglwyf am ddim |
| • Gwres/trydan sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd | • GIG |
| • Dylai bysiau nad ydynt yn fysiau ysgol fod am ddim ar gyfer disgyblion TGAU a 6ed dosbarth | • Banciau bwyd a rhoddion yn fwy hygyrch |
| • "Cinio ysgol – mwy ar gael – mwy o amrywiaeth" | • Isafswm cyflog hyd at o leiaf y cyflog byw |
| • Cinio ysgol am ddim | • Gwladoli cwmnïau ynni |
| • "Clwb Brecwast ar gael yn y bore" | • Codiadau cyflog yn gyffredinol ar gyfer swyddi sydd eu hangen (30%) |
| • Dŵr ar gael yn ystod y dydd | • Cap ar brisiau rhent |
| • Gwres a thrydan | • Cardiau disgownt myfyrwyr ar gyfer TGAU a'r 6ed dosbarth |
| • "Mwy o gyflog i athrawon – llai o streiciau" | • Dylai gwasanaethau fel bysiau/prydau ysgol/canolfan hamdden/campfa gael eu disgowntio neu fod am ddim i blant ar incwm isel |
| • Angen gwella amodau gwaith | |

Roedd y themâu mwyaf cyffredin a godwyd mewn perthynas â'r economi yn canolbwyntio ar y cymorth i bobl iau sy'n ymuno â'r gweithlu. Yn gyntaf, roedd sawl ymateb yn pwysleisio'r angen am hyfforddiant gwahanol, gan gynnwys 'sgiliau bywyd', rheolaeth a'r diwydiannau penodol megis yr economi werdd a'r diwydiannau creadigol. Yn ail, roedd galw hefyd am gefnogaeth well ar gyfer prentisiaethau, o ran cyfleu'r cyfleoedd sy'n bodoli a hefyd lefel y tâl, a byddai'r ddau ohonynt yn debygol o ddenu mwy o ymgeiswyr. Codwyd amrywiaeth o faterion eraill a ddangosir yn y tabl isod. Codwyd y mater o drafnidiaeth well eto yn y thema hon.

## Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth

| | |
|---|---|
| • Mwy o swyddi yn y sector technoleg/cyfrifiadura/TG | • Tâl gwell am brentisiaethau – denu mwy o bobl i wneud prentisiaeth |
| • Gwneud yn siŵr bod myfyrwyr yn ymwybodol o brentisiaethau | • Mwy o wybodaeth am lwybrau gyrfa |
| • Hyrwyddo prentisiaethau fel mae prifysgolion yn cael eu hyrwyddo | • Gweithdai |
| • Sut i edrych yn dda mewn cyfweliad | • Profiad gwaith |
| • "Gwaith ymarferol + profiad – dysgu cyffyrddol" | • Mwy o wersi bywyd (rheolaeth) |
| • Mwy o gefnogaeth addysgol | • Mwy o brentisiaethau yn y diwydiant creadigol |
| • Cyflwyniadau ar gyfer swyddi gwahanol | • Dysgu gwybodaeth gyfreithiol berthnasol |
| • Hyfforddiant ariannol ar gyfer swyddi gwyrdd | • Darparu sgiliau a phrofiad ar gyfer swyddi mwy creadigol |
| • Mwy o hyfforddiant i bobl sy'n dod o gefndir ffermio – helpu i gadw i fyny â'r newid yn y strwythur economaidd | • Adnoddau cryfach i bobl sy'n delio â diffyg gwaith e.e. canolfannau gwaith |
| • Gwersi penodol am y rhain fel pwnc yn yr ysgol | • Dysgu pethau pwysicach yn yr ysgol ar gyfer hunangyflogaeth |
| • Sgiliau bywyd – arian, cynilion, bywyd, pethau y mae angen i ni wybod am y dyfodol nad ydym yn eu gwybod ar hyn o bryd | • Trafnidiaeth gwell i gyrraedd swydd |

O ran cymunedau lleol, roedd dau fater a oedd yn fwyaf cyffredin yn y drafodaeth. Yn gyntaf, codwyd y mater o gyllid ar gyfer prosiectau cymunedol er mwyn darparu cymorth ieuenctid cyffredinol. Roedd hyn yn cynnwys yr angen am grantiau mwy hygyrch i wella'r cymorth ieuenctid a ddarperir. Yn ail, nodwyd beicio yn arbennig a'r angen am lwybrau beicio gwell ac i'r llwybrau hyn fod yn ddiogel. Crynhoir y rhain yn y tabl isod.

## Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach

| | |
|---|---|
| • Grantiau a chyllid mwy hygyrch i wella cymorth ieuenctid | • Dim talu am doiledau cyhoeddus + mwy o doiledau |
| • Mannau cymunedol – clybiau – gweithgareddau – trydan – mannau gwefru – cymorth – cynhyrchion misglwyf – rhoddion bwyd – parciau ac ardaloedd ffitrwydd mewn mannau agored cymunedol | • Llochesi i'r digartref |
| • Amgylcheddau – teithiau cerdded cyhoeddus / llwybrau cerdded cŵn – biniau – anghysondeb gyda chasglu sbwriel – awyr agored mwy diogel e.e. gwydr ar y llawr | • Noddfa gwenyn |
| • Codi arian mewn cymunedau ar gyfer mannau cymunedol (chwaraeon, gwerthu cacennau, tynnu rhaff ac ati) | • 4G (astroturf) o gwmpas Ceredigion |
| • Ffynhonnau dŵr cyhoeddus i ail-lenwi poteli plastig | • Clybiau ieuenctid (Aberystwyth ac Aberaeron) |
| • "Gerddi cymunedol – yn dda i iechyd meddwl – unrhyw oedran – bwyd wedi'i dyfu'n lleol – cyfranogiad cymunedol" | • Mwy o arian ar gyfer gerddi cyhoeddus mewn cymunedau bach |
| • Gwneud pobl yn fwy ymwybodol | • Traciau BMX / beicio |

| | |
|---|---|
| • "Mwy o fannau cymunedol ecogyfeillgar – mwy o blannu" | • Llwybrau beicio (mwy ac o ansawdd gwell) |
| • "Caffis cymunedol – gyda mynediad i gyfrifiaduron" | • Llwybrau beicio mwy diogel |
| • Llwybrau cerdded (llwybrau natur) | |

Roedd yr ymatebion yn dangos lefel uchel o ddealltwriaeth o faterion amgylcheddol a gwnaed amrywiaeth eang o awgrymiadau. Tynnwyd sylw at yr angen am fwy o fannau gwyrdd a phlannu coed ynghyd â'r angen i leihau traffig a llygredd a gwneud y defnydd gorau o ynni gwyrdd. Yn ddiddorol, roedd cyfeiriadau niferus hefyd at ddarparu rhandiroedd er mwyn i gymunedau ac unigolion dyfu eu bwyd eu hunain. Yn gysylltiedig â hyn, nododd un ymatebwr hefyd y dylai cynhyrchu bwyd ddigwydd yn lleol. Dangosir ehangder yr ymatebion a dderbyniwyd yn y tabl isod.

## Creu Cymunedau Cynaliadwy, Gwyrdd ac Wedi'u Cysylltu'n Dda

| | |
|---|---|
| • Parciau cŵn | • Achub y gwenyn (mwy o blanwyr mewn ardaloedd cymunedol) |
| • "Cynyddu ardaloedd i gerddwyr – mannau gwyrdd" | • Biniau ar gyfer cynhyrchion mislif |
| • Cynyddu gwybodaeth am yr amgylchedd (e.e. pam y dylid ei barchu, fel peidio â sefyll ar dwyni, tywod – ble mae bywyd gwyllt yn byw) | • Cyfyngu ar lygredd golau er mwyn sicrhau y gall anifeiliaid nosol fyw mewn heddwch tra bod ansawdd cwsg pobl leol yn gwella |
| • Plannu mwy o blanhigion i hybu bywyd gwyllt | • Tyrbinau gwynt |
| • Trafnidiaeth gyhoeddus wyrdd | • Trafnidiaeth gyhoeddus (bysiau) |
| • Ardal gorsiog fach (yn dda ar gyfer bywyd dŵr ac ati) | • Mwy o ffynhonnau dŵr ar hyd y lle – hyrwyddo poteli y gellir eu hailddefnyddio yn hytrach na phrynu poteli ym mhobman |
| • Plannu mwy o goed | • Rhwydi yn y moroedd |
| • Rhoi'r gorau i dorri coed ar gyfer adeiladu | • Lleihau cynhyrchion plastig untro |
| • Plannu mwy o goed / planhigion / blodau | • Rhaglen rhannu ceir |
| • Rhandir cyhoeddus / gerddi | • Mwy o fannau gwyrdd |
| • Tai gwydr cymunedol | • Paneli solar |
| • Pecynnu cyhoeddus (di-blastig) | • Mwy o gynhyrchu bwyd lleol |
| • Ardaloedd dolydd (yn well ar gyfer bioamrywiaeth) (yn wych ar gyfer carbon) | • Llwybrau cerdded / llwybrau natur – beiciau cyhoeddus, beiciau dinas – mwy o finiau |
| • Systemau draenio gwell | • Mwy o randiroedd er mwyn plannu llysiau a bara lleol |
| • Mwy o finiau yn yr ysgolion / parciau / mannau cyhoeddus | • Lleihau milltiroedd awyr gan ehangu cynhyrchu bwyd lleol trwy amrywio'r hyn a dyfir, a'r mathau o danwydd lleol sydd ar gael |

## Diwylliant

Wrth ystyried diwylliant y Sir, a'r iaith Gymraeg, roedd y sylwadau yn amrywio – teimlai rhai y dylid darparu mwy o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, teimlai rhai y gellid gwneud mwy i ddathlu iaith a diwylliant Cymru, a theimlai rhai y gallai athrawon a'r rhai sy'n darparu hyfforddiant ddefnyddio'r Gymraeg. Dangosir amrywiaeth y safbwyntiau hyn yn y tabl isod. Daw dwy thema allweddol arall i'r amlwg – yn gyntaf y dylid cael mwy o ddigwyddiadau Cymraeg yn enwedig cerddoriaeth, ac yn ail y dylid dathlu amrywiaeth ddiwylliannol y Sir er mwyn helpu i greu cymunedau cynhwysol. Yn wir, ymddangosodd "dathlu" a "hyrwyddo" trwy gydol yr ymatebion ymgysylltu mewn perthynas ag iaith a diwylliant Cymru.

| | |
|---|---|
| • Dysgu am ddiwylliannau eraill er mwyn deall pobl sy'n mudo o wledydd eraill ac sydd o hil wahanol | • Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig dathlu pob diwylliant ac amrywiaeth |
| • Dysgu mwy am gymunedau o fewn yr iaith Gymraeg | • Sut ydyn ni'n dathlu'r Gymraeg? |
| • Gwersi trwy gyfrwng y Gymraeg | • Ni ddylid gor-flaenoriaethu siaradwyr Cymraeg nac eilunaddoli siaradwyr Cymraeg sydd â barn wael dim ond oherwydd eu bod yn siarad Cymraeg |
| • Bagloriaeth Cymru, mathemateg, gwyddoniaeth | • Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig cynnwys pob cymuned a helpu i gefnogi amrywiaeth mewn lleoedd Cymraeg eu hiaith trwy ddefnyddio addysg i helpu i uno pobl |
| • Mwy o safleoedd Cymraeg i blant bach er mwyn iddynt dyfu yn siarad yr iaith yn hyderus | • Wythnos diwylliant – cael wythnos yn yr ysgol i ddysgu am ddiwylliannau gwahanol yn yr ysgol |
| • Hyrwyddo siarad Cymraeg mewn ysgolion dwyieithog | • Dathlu pobl o dreftadaeth ethnig yng Nghymru |
| • Rhaid i bob athro yng Nghymru allu siarad Cymraeg | • Dathlu amrywiaeth ddiwylliannol: caniatáu ac annog pob hunaniaeth a diwylliant (gan gynnwys y Cymry) i ddathlu a chymryd rhan yn eu diwylliannau a'u traddodiadau |
| • Parch dwy ffordd rhwng ieithoedd – parchu a dysgu ieithoedd / diwylliannau eraill ac i'r gwrthwyneb | • Sicrhau nad yw'n effeithio nac yn cael ei flaenoriaethu dros addysg, iechyd meddwl, yr amgylchedd, materion byd-eang, trafnidiaeth gyhoeddus |
| • Pos ysgol yw sicrhau pwyllgorau | • Dathlu hanes Cymru, mis hanes Cymru |
| • Mwy o weithwyr digwyddiadau e.e. pêl-droed ac ati yn defnyddio'r Gymraeg fel eu hiaith gyntaf. | • Mae angen i ni ddathlu'r Gymraeg heb ddieithrio'r rhai nad ydynt yn ei siarad. Mae cynhwysiant yn allweddol. |
| • Mwy o ddigwyddiadau Cymraeg – cerddoriaeth – drama ayb | • Pwysigrwydd yr Eisteddfod |
| • Gorfodol i ddysgu Cymraeg yn yr ysgol gynradd ledled Cymru | • Mwy o ddigwyddiadau Cymraeg – cerddoriaeth |
| • Mwy o lyfrau Cymraeg mewn siopau ac ysgolion – diweddaru gyda mwy o lyfrau modern | • Argaeledd dosbarthiadau Cymraeg – ar gyfer pobl hŷn |
| • Dathlu ysgolion Cymraeg | |

# Ymatebion Ysgrifenedig gan Bartneriaid a Rhanddeiliaid

Yn ogystal â'r 34 o ffurflenni arolwg a gwblhawyd, cafwyd 7 ymateb ysgrifenedig unigol gan bartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol allweddol, sef Prifysgol Aberystwyth, Cyfoeth Naturiol Cymru, Heddlu Dyfed-Powys, Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chymdeithas yr Iaith. Roedd dau o'r ymatebion yn adborth manwl gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Mynegodd pob un o'r saith ymateb ysgrifenedig eu diolch am allu cymryd rhan yn yr ymgynghoriad a rhoi sylwadau ar y Cynllun Llesiant Lleol drafft.

## Adborth gan Bartneriaid BGC a Rhanddeiliaid Lleol

Roedd y pedwar partner BGC a roddodd ymateb ysgrifenedig manwl yn datgan yn benodol eu cefnogaeth i'r Cynllun Llesiant Lleol drafft, ond gyda rhai addasiadau ac awgrymiadau i'w hystyried a grynhoir isod.

### Cydweithio i sicrhau economi gynaliadwy sydd o fudd i bobl leol ac sy'n adeiladu ar gryfderau Ceredigion

- Cyd-fynd â Bargen Twf Canolbarth Cymru ac annog ymagwedd sy'n canolbwyntio mwy ar yr amgylchedd o fewn y fenter hon
- Mabwysiadu ymagwedd fwy cynhwysol ac arloesol at fesur budd a llwyddiant economaidd.
- Yn wyneb pwysigrwydd yr economi wledig yng Ngheredigion, ehangu ymhellach y manylion sy'n cyfeirio at amaethyddiaeth
- Cysylltiadau cliriach â Bargen Twf Canolbarth Cymru a'r fframwaith economaidd rhanbarthol ar draws ystod o feysydd megis ynni, yr economi a sgiliau.
- Ystyried mwy o ffocws ar gefnogi caffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol ac amgylcheddol gyfrifol, er budd y gadwyn gyflenwi leol.
- Pryderon ynghylch y gorbwyslais ar y diwydiant twristiaeth yn y Sir ac anfanteision incwm llai sefydlog a dibynadwy. Gallai partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyfrannu at greu twristiaeth gynaliadwy yn y Sir trwy strategaeth ar y cyd, a ddylai fod yn gam yn y Cynllun Llesiant Lleol. (Twristiaeth gynaliadwy = twristiaeth sy'n ystyried ei heconomi, ei chymdeithas a'i hamgylchedd nawr ac yn y dyfodol, gan roi sylw i anghenion ymwelwyr, y diwydiant, yr amgylchedd a chymunedau sy'n croesawu ymwelwyr).
- Dylai partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyfrannu at yr economi trwy greu polisi ar gyfer prynu'n lleol lle bo modd, er mwyn creu economi gylchol sy'n gynaliadwy, a blaenoriaethu cwmnïau lleol neu Gymreig.

### Cydweithio i leihau anghydraddoldebau yn ein cymunedau a defnyddio atebion cymdeithasol a gwyrdd i wella iechyd corfforol a meddyliol

- Mae angen mwy o sôn am drafnidiaeth gynaliadwy, sy'n cael effaith arwyddocaol ar gymunedau gwledig o safbwynt llesiant a datgarboneiddio, a rôl y BGC o ran diogelu a gwella gwasanaethau gwledig er budd ei drigolion.
- Dylid cynnwys teithio llesol fel rhan o fenter Teithio Llesol Llywodraeth Cymru i annog cymunedau i ymgysylltu â theithio cynaliadwy a'r manteision cymdeithasol ac iechyd sy'n gysylltiedig â hyn.
- Ystyried yr effaith anghymesur ar gymunedau penodol mewn perthynas â risgiau a pheryglon amgylcheddol, megis y perygl o lifogydd, ansawdd aer gwael, llygredd sŵn, ansawdd dŵr a rhywogaethau estron goresgynnol.
- Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau i gefnogi eu dealltwriaeth eu hunain o feithrin cydnerthedd, a'u cyfraniad posibl at hynny.
- Ystyried cynnig hyfforddiant i bartneriaid ar y model 'Tri Gorwel' i helpu i ymgorffori tueddiadau'r dyfodol yng ngham nesaf cynllunio llesiant.
- Dylid cynnwys mwy o fanylion ar fater allweddol mynediad i gyfleoedd chwaraeon a hamdden ar draws y Sir.

### Cydweithio i gyflawni mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol

- Cynnwys ansawdd dŵr a llygredd, yn benodol mewn perthynas ag afonydd Ceredigion.
- Cynnwys manylion am yr amgylchedd morol (a'r economi ac adloniant cysylltiedig).
- Ystyried cynnal Asesiad o Risgiau a Chyfleoedd Hinsawdd, yn unol â Chymhwyso'r Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd ar gyfer Cymru (CCRA3), i lywio sut i symud ymlaen â dull wedi'i dargedu ar gyfer cyflawni addasu hinsawdd yng Ngheredigion.
- Cynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd a sut y gallai effeithio ar gymunedau gwledig a chyflawni'r amcanion llesiant.

### Cydweithio er mwyn i gymunedau deimlo'n ddiogel ac wedi'u cysylltu gan hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

- Cyfeiriad pellach at y rôl y mae mannau ffisegol yn ei chwarae wrth gyfrannu at lesiant diwylliannol yng nghyd-destun mannau celfyddydau, iaith, diwylliant a threftadaeth sy'n unigryw i Geredigion.
- Rhoi ystyriaeth ddyledus i effeithiau gwirioneddol troseddau gwledig ac amgylcheddol (fel tipio anghyfreithlon, beicio oddi ar y ffordd a thanau gwyllt ac ati) a sut y gall y BGC fynd i'r afael â'r materion hyn.

- Dylid cynnwys mwy o fanylion ar y mater allweddol o drafnidiaeth gyhoeddus a chynaliadwy ar gyfer y Sir.
- Ar dudalen 19 o'r cynllun, dileu'r cyfeiriad at fyfyrwyr mewn perthynas â Cheredigion yn cael ei hystyried yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg. Nid yw hyn yn cyflwyno safbwynt cytbwys gan fod llawer o fyfyrwyr yn siarad Cymraeg ac yn cyfrannu at ddiwylliant dwyieithog bywiog.
- Fel un o gadarnleoedd y Gymraeg, mae angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fod yn fwy uchelgeisiol o ran ei weithredoedd mewn perthynas â hyrwyddo'r Gymraeg, a dylai hyn fynd y tu hwnt i ddim ond annog a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Dylai holl bartneriaid y BGC ddarparu hyfforddiant ac ystyried prentisiaethau i bobl weithio'n uniongyrchol gyda'r cyhoedd, gan eu galluogi i uniaethu â'r cyhoedd yn hyderus trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Dylid cynnwys yr hawl i gael cartref yn lleol o fewn yr amcan hwn gan fod fforddiadwyedd tai yn cael effaith ar gymunedau lleol. Gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fod yn fwy rhagweithiol wrth nodi anghenion ac amgylchiadau lleol pobl, a dod o hyd i a hwyluso datrysiadau addas megis tai rhent cymdeithasol, tai marchnad ganol a thai marchnad leol. Dylai'r Cynllun Llesiant Lleol fod yn fwy uchelgeisiol ac yn darged penodol er mwyn gwneud gwahaniaeth go iawn i bobl y Sir.

Cydweithio i gyflawni uchelgeisiau cyffredin ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau yng Ngheredigion, oherwydd gall y rhain gael effaith ar draws pob un o'r pedwar piler llesiant – llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol

- Ceisio pob cyfle i hyrwyddo mesurau addasu hinsawdd, megis ôl-osod adeiladau i leihau ôl troed carbon a gwella cost-effeithiolrwydd, gosod systemau draenio mwy cynaliadwy a seilwaith gwyrdd, a thrwy hynny wella'r amgylchedd lleol o amgylch seilwaith llwyd traddodiadol.
- Mae asesiad risg newid hinsawdd yn 'gam nesaf' angenrheidiol ar gyfer nodi sut i gymhwyso llawer o'r cynllun llesiant i anghenion lleol Ceredigion, a'n helpu i flaenoriaethu materion gyda'r adnoddau sydd ar gael i wella cydnerthedd cymunedol a mesurau addasu ar gyfer hinsawdd sy'n newid.
- Ystyried a ddylid rhoi mwy o sylw i'r mater allweddol o dai digonol a fforddiadwyedd tai yn y Sir.

## Adborth gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Rhoddodd Llywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol adborth manwl ar y Cynllun Llesiant Lleol drafft. Oherwydd eu hyd, mae ei ymatebion llawn wedi'u hatodi er gwybodaeth (Atodiad 1 a 2), ond rhoddir crynodeb o'u prif bwyntiau isod.

### Llywodraeth Cymru

- Ar y cyfan, cafodd y cynllun drafft ei groesawu. Mae'n gynllun drafft sydd wedi'i gynllunio'n glir ac mae'n amlwg bod llawer o waith wedi'i wneud i ystyried y blaenoriaethau allweddol sy'n deillio o'r asesiad llesiant.
- Mae'r cynllun wedi'i strwythuro'n dda ac wedi'i ysgrifennu a'i gyflwyno'n glir.
- Mae'r adran ar yr amcanion llesiant wedi'i gosod allan yn dda ac yn llifo'n dda gyda'r tri phennawd – 'Pam yr amcan hwn', 'Ein huchelgeisiau', a 'Beth fyddwn ni'n ei wneud'; mae hyn yn rhoi esboniad da, clir o'r broses.
- Byddai'n dda cael mwy o dystiolaeth o sut mae meddylfryd tymor hwy (h.y. ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol) wedi'i ymgorffori yn y cynllun.
- Adlewyrchu'n gliriach y meddylfryd tymor hwy i nodi'r amcanion yn y cynllun.
- Mae cyfeiriadau at strategaethau, cynlluniau a rhaglenni gwaith corfforaethol eraill sydd eisoes yn eu lle o fewn y sir yn gryfder.
- Mae'r asesiad llesiant wedi'i ddefnyddio'n effeithiol i helpu i nodi'r blaenoriaethau a fydd yn cael sylw yn y cynllun.
- Byddai cynnwys mwy o ystyriaeth o gryfderau a bylchau wrth ddatblygu'r cynllun, er enghraifft, ymgysylltu â chymunedau a phartneriaid cyflawni gwahanol yn helpu i'w gryfhau.
- Sonnir am y bwlch tystiolaeth ar ddata nodweddion gwarchodedig ers Covid-19, ond ychydig iawn o fanylion sydd am hyn a dim cyfeiriad at fylchau eraill yn y dystiolaeth a allai fod wedi effeithio ar ddatblygiad y cynllun.

- Ystyried y sylfaen dystiolaeth 'beth sy'n gweithio' ynghylch pam mae rhai camau gweithredu wedi'u dewis a byddai datblygu theori newid i egluro sut y disgwylir i'r camau hyn arwain at yr uchelgeisiau a nodwyd yn helpu i gryfhau'r cynllun.
- Byddai dangos cynlluniau ar gyfer gwerthuso gweithredu'r uchelgeisiau a'u heffaith hefyd yn helpu i gryfhau'r cynllun.

## Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cael gwybod am y cynnydd o ran datblygu'r Cynllun Llesiant Lleol drafft a'r Amcanion Llesiant. Derbyniwyd adborth dwywaith gan Swyddfa'r Comisiynydd ar 22 Awst 2022 a 20 Medi. Mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o'r prif adborth a'r awgrymiadau a wnaed.

### Adborth Cyffredinol

- Mae'r cynllun drafft yn glir, yn darllen yn dda ac yn uchelgeisiol o ran ei gwmpas a'r camau gweithredu posibl y mae'n eu hamlinellu.
- Mae'n wych gweld y ffordd rydych wedi fframio'r ddogfen ddrafft: defnyddio pedwar dimensiwn llesiant; ystyried casgliadau eich asesiad llesiant; deall beth sydd angen ei gyflawni (yn strategol) ac yna edrych ar yr hyn y gall y BGC ei wneud yn ei gylch.
- Yn y testun ategol, mae'n gadarnhaol gweld cyfeiriad at ddemograffeg newidiol, newidiadau i batrymau gwaith a phwysigrwydd seilwaith/cysylltedd digidol.
- Mae rhai o'r camau a amlinellir yn y cynllun drafft yn eang eu cwmpas ac rydym yn annog eich BGC i sicrhau bod y gweithgareddau arfaethedig yn glir ac yn gyraeddadwy.
- Sicrhau bod y gweithgarwch a gynigir yn y cynllun llesiant yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn berthnasol ac â chyfyngiad amser.
- Dylid ystyried ymhellach y rhyng-gysylltiadau rhwng y blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg i helpu i wneud y mwyaf o'ch cyfraniad at holl nodau llesiant Cymru.
- Gan adeiladu ar y wybodaeth yn atodiad un "Sut mae'r rhain yn cyfrannu at y Saith Nod Llesiant", mae cyfleoedd i'r BGC ystyried ymhellach sut y gall y gweithgarwch a gynigir gyfrannu'n ehangach.
- Byddwch yn feiddgar yn y camau rydych yn bwriadu eu cymryd ar gyfer eich cymunedau dros y pum mlynedd nesaf.

### Amcan Trawsbynciol: Cydweithio i gyflawni uchelgeisiau cyffredin ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau yng Ngheredigion oherwydd gall y rhain gael effaith ar draws pob un o'r pedair piler llesiant – llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol

- Mae'n amlwg bod y rhesymeg y tu ôl i'ch amcan trawsbynciol ar fynd i'r afael â chaledi a thlodi wedi datblygu o'r drafft cyntaf, yn enwedig trwy gynnwys 3 cham.
- Bydd llwyddiant yr amcan trawsbynciol hwn yn dibynnu i raddau helaeth ar ansawdd y sgyrsiau rydych yn eu cael gyda'ch cymunedau, yn yr achos hwn, Aberteifi.

### Amcan 1: Cydweithio i sicrhau economi gynaliadwy sydd o fudd i bobl leol ac sy'n adeiladu ar gryfderau Ceredigion

- Sicrhewch eich bod yn edrych yn y tymor hwy ar y sgiliau a'r hyfforddiant sydd eu hangen i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n wynebu Ceredigion.
- Dylid ystyried pa gamau gweithredu wedi'u targedu a pharhaus y gallai fod eu hangen i sicrhau mynediad i'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur yn eich ardal, e.e. pobl anabl, menywod a phobl ddu, asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.
- A oes unrhyw gyfleoedd i wneud y cysylltiadau yma â phwynt 4d ym mhapur ategol CNC, sy'n nodi sut y gall BGCau helpu i gymell economi leol adfywiol lle caiff effeithiau amgylcheddol cynhyrchu a defnyddio eu lleihau?
- Sylwadau ar gamau penodol:

- 1.1. Yn croesawu ychwanegu'r testun sy'n dweud 'gan gynnwys uwchsgilio ac ailhyfforddi ar gyfer economi werdd.' Rydym yn eich annog i wneud cysylltiadau clir â phwysigrwydd cydweithio a chynnwys yn y testun ategol.
- 1.2. Fel y gwyddoch, nid yw'r meini prawf ar gyfer gwneud cais i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cynnwys nac yn cyfeirio at ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dylai unrhyw brosiectau a weithredir arnynt fod yn unol â'r dull polisi hirdymor blaengar rydym wedi'i sefydlu yng Nghymru trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i unrhyw gynigion ddangos sut y byddai'r cyllid yn eich galluogi i cymryd pob cam rhesymol i gyflawni eich amcanion llesiant a chydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- 1.4. Rydym yn eich cyfeirio at ein cyngor cynharach lle gofynnwyd am sicrwydd eich bod wedi ystyried y darlun ehangach ar yr economi sylfaenol yng Nghymru, ac wedi rhannu cysylltiadau amrywiol. Os yw'r ffocws ar adroddiad CLES yn unig, byddai'n ddefnyddiol gwybod pa argymhellion, yn benodol, rydych yn ceisio eu cyflawni.
- 1.5. Croesawu ychwanegu ymrwymiad y BGC i waith teg. Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru adnoddau ar waith teg yma a allai fod yn ddefnyddiol i chi.

**Amcan 2: Cydweithio i leihau anghydraddoldebau yn ein cymunedau a defnyddio atebion cymdeithasol a gwyrdd i wella iechyd corfforol a meddyliol**

- Croesawu'r ffocws cryf, clir ar ymyriad seiliedig ar le yn Aberteifi i helpu i leihau anghydraddoldebau a rhannu'r hyn sy'n gweithio y tu hwnt i hynny. Er eglurder, byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r testun ategol ar gyfer amcan drafft 2 gynnwys esboniad ar beth yw 'ymyriadau seiliedig ar le', sut beth fyddan nhw yn eich ardal chi a sut y gallent fod yn wahanol i ddulliau blaenorol.
- Er bod cydweithio wedi'i nodi fel cryfder yn ein trafodaethau hyd yn hyn, a'ch asesiad llesiant chi, gellid pwysleisio'r ffordd hon o weithio yn fwy o fewn yr amcan hwn.
- Yn seiliedig ar eiriad presennol amcan 2 drafft, mae'n bosibl y gellid rhoi ystyriaeth bellach i adlewyrchu'r cryfderau a'r enghreifftiau presennol yn yr ardal a sut y gallai'r rhain fod yn sail i ddysgu a symud ymlaen.
- Pa ystyriaeth a roddwyd i waith a gweithgarwch a fydd eisoes wedi cymryd lle i fapio asedau ac adnoddau yn yr ardal.
- Integreiddio iechyd a llesiant yn eich amcanion llesiant eraill.
- Rydym yn eich annog i nodi ac amlinellu unrhyw rwystrau neu densiynau a all fod gyda'r amcan hwn, ac unrhyw gamau posibl y gallwch chi (neu eraill) eu cymryd i'w dileu.
- Sylwadau ar gamau penodol:
  - Cam 2.1.2. Croesawu'r cyfeiriad ychwanegol at bresgripsiynu cymdeithasol, gwyrdd a glas.
  - Cam 2.3. Ailadrodd ein sylw cynharach, sef er ei fod yn gadarnhaol iawn gweld cam sy'n canolbwyntio ar fwyd, mae'r cam drafft fel y mae wedi'i eirio (h.y. 'archwilio'r cyfleoedd…') o bosibl ychydig yn annelwig ac efallai y bydd angen ystyried ymhellach sicrhau bod y gweithgareddau rydych yn ceisio'u cyflawni yn glir ac yn gyraeddadwy.
  - Cam 2.4. Sylwi bod cam 2.4 wedi'i ddileu o amcan llesiant 3 (drafft cyntaf) i amcan llesiant 2 sy'n cyd-fynd yn well a dylai ategu'r camau eraill a nodir yn amcan 2.

**Amcan 3: Cydweithio i gyflawni mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol**

- Byddai'n cryfhau'r cynllun drafft pe bai'r cydweithio rhwng partneriaid BGC a phartneriaid pwysig eraill yn fwy amlwg, naill ai yng ngeiriad y camau neu'r testun ategol.
- Os ydych yn ei chael hi'n anodd cael mwy o fanylion mewn cam, rydym yn argymell eich bod yn ceisio gwneud y cysylltiadau o fewn y testun ategol.
- Sylwadau ar gamau penodol:
  - Cam 3.1. Fel y'i geiriwyd, dim ond at 'weithgarwch datgarboneiddio' y mae'r cam yn cyfeirio. A all hyn fynd ymhellach a chynnwys rhai o'r meysydd y bydd y BGC o bosibl yn canolbwyntio arnynt? Er enghraifft, fflyd, adeiladau, caffael ac ati?

- Cam 3.2. Efallai nad yw'n glir i ddarllenwyr ac aelodau'r cyhoedd beth yn union yw ystyr ' cefnogi mesurau atal llygredd' ac ymddengys nad oes llawer o gysylltiad rhwng y cam ei hun a'r testun ategol o dan amcan 3.
- Cam 3.3. Eich cyfeirio at gam 4b 'Gwella iechyd ein hecosystemau' ym mhapur ategol CNC er mwyn rhoi ystyriaeth bellach i rai o'r meysydd y mae'n eu hamlygu sy'n berthnasol yma hefyd, yn ogystal ag ystyried cysondeb iaith.
- 3.4. Cysylltiadau cryf yma â'r camau gweithredu a amlygwyd gan CNC yn eu papur, yn enwedig 4a, 4c i a ii a 4d. Fel uchod, rydym yn gwerthfawrogi y bydd hyblygrwydd yn bwysig ond argymhellwn y dylid rhoi ystyriaeth bellach i feysydd 4a, 4c a 4d ym mhapur CNC i helpu i roi rhywfaint o eglurder ar y cam/au penodol y byddwch yn eu hystyried.
- Mae'n galonogol gweld y ffocws ar fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a gweld cyfeiriad at eich asesiad llesiant o ran dangos y gwerth y mae pobl leol yn ei roi ar eu hamgylchedd lleol a'r rôl hanfodol y mae'n ei chwarae yn eu llesiant.

Amcan 4: Cydweithio er mwyn i gymunedau deimlo'n ddiogel ac wedi'u cysylltu, gan hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

- O ystyried maint ac ehangder y gweithgareddau o fewn yr amcan hwn, ein cyngor yw argymell eich bod yn archwilio ac yn nodi cyfleoedd i integreiddio rhai o'r gweithgareddau a amlinellir yn eich amcanion a'ch camau eraill. Er enghraifft:
  - A oes cysylltiadau posibl rhwng cefnogi strategaeth ddiwylliannol ar gyfer yr ardal (cam 4.1) a'r cam o fewn amcan 1 i gefnogi'r economi sylfaenol a'r camau o fewn amcan 2 lle rydych yn ceisio mabwysiadu dull seiliedig ar le?
  - A oes cyfleoedd i ddilyn ac integreiddio eich uchelgeisiau ar gyfer y Gymraeg trwy weithgareddau eraill, megis eich camau sy'n canolbwyntio ar sgiliau, ymyriadau seiliedig ar le, yr economi sylfaenol a/neu strategaeth ddiwylliannol, a thrwy hynny gryfhau eu heffaith y tu hwnt i ddyletswydd statudol?
- Rydym yn eich annog i ystyried y rhyng-gysylltiadau rhwng eich blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg er mwyn helpu i lywio eich penderfyniadau am y camau mwyaf effeithiol a phwy fydd angen eu cynnwys.
- Wrth i chi ddatblygu eich amcanion a'ch camau, byddai'n ddefnyddiol deall:
  - Sut mae'r gwaith hwn yn cael ei lywio gan randdeiliaid allweddol dros gyfnod yr haf, ac yn enwedig eu hanghenion a'u heriau?
  - Sut y gall y rhanddeiliaid allweddol yr effeithir arnynt gan yr amcanion a'r camau barhau i ddylanwadu ar y prosiect drwy gydol ei oes?
- Sylwadau ar gamau penodol:
  - Ar gam 4.2, mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi cynghori y dylai eich cynllun llesiant gyd-fynd â'ch Strategaeth Hybu'r Gymraeg a gallai hyn fod yn ddefnyddiol i chi wrth nodi pa bartneriaid lleol i ymgysylltu â nhw. Ynghlwm mae adnoddau Comisiynydd y Gymraeg 'Ystyried y Gymraeg yn y Cynlluniau Llesiant Lleol' a gobeithiwn y byddant yn ddefnyddiol i chi.
  - Gan adeiladu ar gynnwys cam 4.6, byddai'n ddefnyddiol pe gellid darparu cyd-destun pellach yn y testun ategol. Er enghraifft, gwybodaeth am ba bartneriaethau y mae'r BGC yn bwriadu eu ffurfio a'r hyn y maent yn bwriadu ei gyflawni.

# Cwestiynau Monitro Cydraddoldeb

Gofynnwyd cwestiynau monitro demograffig a chydraddoldeb safonol y Cyngor fel rhan o'r arolwg.

13. Yr Iaith Gymraeg – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynnig hwn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Teimlai'r mwyafrif llethol o ymatebwyr y byddai'r Cynllun Llesiant Lleol yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg. Fodd bynnag, amlygwyd sawl pwynt allweddol er mwyn gwella hyn ymhellach:

- Dylid annog cymunedau i ddarparu grwpiau a gweithgareddau cynhwysol.
- Dylid darparu mwy o gyfleoedd i ddysgu Cymraeg yn rhad ac am ddim.
- Sefydliadau i weithio'n agos gyda sefydliadau Cymraeg i hyrwyddo eu hamcanion trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Annog busnesau lleol i sicrhau bod ganddynt staff sy'n siarad Cymraeg.
- Hyrwyddo'r manteision a'i wneud yn iaith gwaith a bywyd.

Dangosir sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y tabl isod.

| Sampl o'r Sylwadau | |
|---|---|
| "Mae'n bwysig bod popeth yn cael ei arwain trwy'r Gymraeg, gyda'r cyfle i bobl ddysgu Cymraeg sylfaenol wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol. Mae'n bwysig iawn bod y Gymraeg yn cael ei hybu a bod y Gymraeg yn gyntaf ym mhob agwedd ar ein cymunedau" | "Angen mwy o fynediad rhwydd at ddosbarthiadau Cymraeg ar bob lefel gan fod y rhan fwyaf o bobl sy'n symud i'r ardal yn awyddus i ddysgu rhywfaint o Gymraeg" |
| "Efallai nad oes gan rai busnesau unrhyw siaradwyr Cymraeg yn gweithio iddynt, felly efallai y dylai fod yn ofynnol i fusnesau gael rhywfaint o staff sy'n siarad Cymraeg neu gyfieithwyr. Efallai y bydd gan lawer o bobl Saesneg eu hiaith ddiddordeb mewn cymryd dosbarthiadau Cymraeg yn eu hamser hamdden ac felly mae cyfle yma i sefydlu digwyddiadau cymdeithasol neu grwpiau lle gall pobl ymarfer siarad Cymraeg er mwyn iddynt fod yn fwy cynhwysol yn eu bywydau bob dydd." | "Trin y Gymraeg fel ein hawl nid fel rhywbeth ychwanegol. Mae hyn fwy neu lai yn cael ei gyflawni gan gyrff cyhoeddus ond gellid gwneud mwy i geisio cael pobl ddi-Gymraeg i ddeall pa mor bwysig yw hanes a diwylliant yr iaith Gymraeg i ni fel Cenedl." |

14. Yr Iaith Gymraeg – Eglurwch hefyd sut y gellid llunio'r cynnig arfaethedig hwn, yn eich barn chi:

- Sicrhau effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- fel nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Cafwyd amrywiaeth o syniadau ynghylch sut y gellid gweithredu'r Cynllun Llesiant Lleol i gael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg a chyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, sef:


- Tynnu sylw at bwysigrwydd meddu ar sgiliau Cymraeg wrth wneud cais am swydd.
- Cefnogi cymunedau a hoffai gynyddu'r defnydd o'r iaith a'r syniad o ddinasyddiaeth Gymreig.

- Gweithwyr gyda'r cyhoedd i nodi eu bod yn siarad Cymraeg.
- Dylai arwyddion a dogfennau swyddogol fod yn ddwyieithog.
- Gofyn i wefannau neu fusnesau Ceredigion gael eu hiaith ddiofyn fel y Gymraeg yn lle'r Saesneg, gan mai'r Gymraeg yw iaith swyddogol y wlad a'i bod yn arwyddocaol yn ddiwylliannol.
- Sicrhau hefyd fod yr holl wybodaeth ar arwyddion, posteri a gwefannau bob amser yn cael ei chyfieithu i'r Gymraeg.


Dangosir sampl o rai o'r sylwadau hyn yn y tabl isod.

| Sampl o'r Sylwadau | |
|---|---|
| "Trwy gefnogi cymunedau a hoffai gynyddu'r defnydd o'r iaith a'r syniad o ddinasyddiaeth Gymreig" | "Efallai gofyn i wefannau neu fusnesau Ceredigion gael eu hiaith ddiofyn fel y Gymraeg yn lle'r Saesneg, gan mai'r Gymraeg yw iaith swyddogol y wlad a'i bod yn arwyddocaol yn ddiwylliannol – hefyd sicrhau bod yr holl wybodaeth ar arwyddion, posteri, gwefannau ac ati yn cael ei chyfieithu i'r Gymraeg bob amser os yw wedi'i hysgrifennu'n wreiddiol mewn iaith wahanol, yn enwedig Saesneg" |
| "Trwy fabwysiadu dulliau o fesur effaith y cynnig bob hyn a hyn a rhoi mesurau yn eu lle os nad yw'r effaith honno yn dangos canlyniadau cadarnhaol o ran y Gymraeg" | "Gweithwyr gyda'r cyhoedd i nodi eu bod yn siarad Cymraeg – yn anffodus, dwi'n aml yn dechrau yn Saesneg i osgoi embaras iddyn nhw os nad ydyn nhw'n deall Cymraeg. Dylai popeth fod yn ddwyieithog – arwyddion, dogfennau ac ati – a hybu'r defnydd o ymadroddion Cymraeg bob dydd sylfaenol" |


**15. Oedran – Beth yw eich grŵp oedran?**





**16. Rhyw – Beth yw eich rhyw?**




**17. Trawsrywiol – ydy'ch rhyw yn awr yr un fath â'r un a ddyranwyd i chi ar eich genedigaeth?**





**18. Cyfeiriadedd Rhywiol – Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio orau'r ffordd rydych yn meddwl amdanoch chi eich hun?**





**19. Partneriaeth – Beth yw eich statws partneriaeth?**





**20. Hunaniaeth Genedlaethol – Sut fyddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?**




**21. Hil – Beth yw eich grŵp ethnig? Dewiswch un opsiwn sy'n disgrifio eich grŵp ethnig neu'ch cefndir orau.**





**22. Iaith – Beth yw'ch dewis iaith?**





**23. Iaith – Ydych chi'n deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?**




**24. Anabledd – A oes gennych gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch tymor hir sy'n lleihau eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd?**





**26. Cyfrifoldebau Gofalu – Ydych chi'n gofalu am rywun neu'n darparu cymorth neu gefnogaeth i aelodau'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd: Cyflwr iechyd / anabledd corfforol neu feddyliol hirdymor; neu Problemau yn ymwneud â henaint**



**27. Crefydd neu Gred – Beth yw eich crefydd?**



# Atodiad 1a:
# Ymateb Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

## Ymgynghoriad cyhoeddus ar gynllun llesiant drafft Ceredigion

Cyngor Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru

Annwyl BGC Ceredigion a swyddogion sy’n eu cefnogi

Diolch i chi unwaith eto am gyfarfod â’n swyddfa yn ystod y cyfnod cynghori statudol er mwyn helpu i addysgu eich cynllun llesiant drafft. Fel y byddwch chi’n ymwybodol, rhannwyd ein cyngor ysgrifenedig â’r BGC ar 9 Hydref 2022.

Mae eich cynllun llesiant drafft bellach yn agored i ymgynghoriad cyhoeddus. Er mwyn cyflawni dyletswydd statudol Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol o ran cynghori BGC ynghylch sut y gallen nhw gymryd camau i gyflawni’u nodau drafft, mae’r llythyr cryno hwn yn cynrychioli ein hymateb i’ch ymgynghoriad cyhoeddus.

**Ymgynghori ar eich cynllun llesiant drafft**

Mae’r ymgynghoriad cyhoeddus sydd wrthi’n digwydd ar hyn o bryd yn gyfle i sefydliadau, rhwydweithiau a phreswylwyr rannu’u barn ar yr hyn y credant y gall y BGC ei wneid i wella llesiant yn eich ardal. Mae hefyd yn gyfle i’ch BGC i sicrhau ei fod yn gweithredu’r pum dull o weithio wrth ddatblygu’r cynllun. Er enghraifft, cynnwys pobl mewn modd ystyrlon a chydweithio gyda phartneriaid a sefydliadau allweddol, ynghyd â defnyddio ein cyngor ac adborth pobl eraill (o’r ymgynghoriad) i amlygu cyfleoedd ar gyfer atal, integreiddio ac atebion mwy hirdymor.

Hoffem eich annog i ystyried yr adborth a dderbyniwch yn drylwyr, a myfyrio ar sut y gall helpu i ddylanwadu ar y gweithredoedd y gallai’r BGC eu cymryd i yrru newid yn eich ardal.

**Ein cyngor ar eich cynllun llesiant drafft**

Seiliwyd y cyngor a rannwyd gennym ym mis Hydref 2022 ar fersiwn o’r cynllun llesiant drafft a ddyddiwyd ar 14 Medi 2022. Fel y trafodwyd rhyngom, mae’r cynllun drafft yn glir, mae’n darllen yn dda ac mae’n uchelgeisiol o ran rhychwant a’r darpar weithredu a amlinellir ynddo.

Yn seiliedig ar y cynllun llesiant drafft sydd ar lein ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd, ymddengys nad oes gwahaniaeth sylweddol rhwng y ddwy fersiwn, oni bai bod y cam i ‘gryfhau gwaith Rhaglen Ddigidol Tyfu Canolbarth Cymru…’ wedi cael ei symud o nod llesiant un i ddau, a bod cam i ‘fwyhau’r cyfle i uwchsgilio ac ailhyfforddi ar gyfer adferiad gwyrdd’ wedi’i gynnwys dan nod llesiant tri.

Am mai dim ond ychydig o newidiadau a wnaed, yn ôl pob golwg, atodir ein cyngor unwaith yn rhagor law yn llaw â’r llythyr hwn er gwybodaeth i chi, a hoffem eich annog i fyfyrio arno eto wrth i chi barhau i fireinio’r cynllun drafft a datblygu eich cynllun cyflawni.

Er enghraifft, fe rannon ni ein barn fod rhai o’r camau a amlinellir yn y cynllun drafft yn eang eu rhychwant, ac anogwyd eich BGC gennym i sicrhau bod y gweithgareddau a argymhellir yn glir a chyflawnadwy. I dynnu sylw at un enghraifft, mae’n dda gweld y cam i ‘ddarparu gweithgarwch datgarboneiddio i gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru o sector gyhoeddus sero net erbyn 2030’, ond nid yw’n glir oddi wrth yr wybodaeth a amlinellir yn y cynllun drafft beth fyddai’r ‘gweithgarwch datgarboneiddio’ hwn, neu beth allai fod.

Er ein bod ni’n nodi bod y cynllun drafft yn dweud “Ein cam nesaf fydd datblygu a gweithredu cynllun cyflawni gyda chamau a gweithredoedd manwl i’w cwblhau…” ein cyngor i bob BGC yw sicrhau bod y gweithgarwch sy’n cael ei gynnig yn eu cynlluniau llesiant yn gyraeddadwy, yn amserol, yn fesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol

(CAMPUS). Mae cynnwys y bobl gywir yn ystod cyfnod ymgynghoriad cyhoeddus eich cynllun drafft yn gyfle da i helpu eich BGC i gyflawni hyn.

Yn ein cyngor cynharach, bu i ni hefyd annog y BGC i ystyried ymhellach y rhyng-gysylltiadau rhwng y blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg i helpu i wneud yn fawr o'ch cyfraniad i holl nodau llesiant Cymru. Yn hyn o beth, mae cynnwys Atodiad Un o gymorth, am ei fod yn amlinellu hyn yn glir.

Gan adeiladu ar wybodaeth a gynhwysir yn atodiad un, ceir cyfleoedd i'r BGC ystyried ymhellach sut y gall y gweithgarwch sy'n cael ei gynnig gyfrannu'n ehangach. Er enghraifft, disgwyliem weld camau 4.1 a 4.2 yn cael eu cynnwys yn erbyn nod llesiant 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' yn yr atodiad, gall y gweithgarwch a gynigir o ran camau fel 2.1.2 (Rhagnodi cymdeithasol a gwyrdd), 2.2 (lle bwyd cynaliadwy) a 2.3 (cysylltu pobl â natur) gael ei gynllunio a'i ddarparu mewn ffordd a fyddai hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol i lesiant diwylliannol Ceredigion.

**Y camau nesaf**
Er bod heriau sylweddol ar hyn o bryd, hoffem eich annog i fod yn eofn o ran y gweithredoedd rydych chi'n eu cynllunio i gymryd ar ran eich cymunedau dros y pum mlynedd nesaf. Byddwn ni'n parhau i weithio gyda'n partneriaid allweddol i ddarparu cefnogaeth barhaus i BGC a hoffem eich calonogi na fyddwn ni'n ceisio cosbi BGC am fentro a rhoi cynnig ar bethau sy'n ceisio gyrru newid.

Wrth i chi barhau i dderbyn adborth drwy gyfrwng yr ymgynghoriad cyhoeddus, a gweithio'n gydweithredol i roi ffurf ar eich cynllun terfynol, byddem ni'n falch o barhau i roi ein cyngor a'n cymorth i chi. Cysylltwch â Jenny McConnel (eich arweinydd rhanbarthol) a Christian Servini yn y lle cyntaf pe bai hyn o gymorth.

**Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
30 Ionawr 2023

**Adnoddau**
Cynhwysir isod restr o'n hadnoddau y gallwch gyfeirio atynt. Rhennir y rhain er mwyn i'r BGC a'i grwpiau cyflenwi eu hystyried wrth i'ch gwaith ar themâu a phynciau penodol ddod i'w lle:

| | | |
|---|---|---|
| **Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol** | **Crynodeb argymhellion** | Rhannwyd â'r BGC eisoes, o gymorth wrth ddeall y math o weithredu y gall PSBau ei wneud o ran pynciau a themâu. |
| | **Gosod amcanion llesiant da** | Pennod 4 o Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| | **Fersiynau Byr** | Tynnwyd o Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r fersiynau byr wedi'u teilwra i feysydd gwaith fel cynllunio, trafnidiaeth ac ati, gan gynnwys y syniadau a'r argymhellion mwyaf perthnasol. |
| **Gweithredu** | **Matrics Aeddfedrwydd Adolygiad Adran 20** | Offeryn defnyddiol sy'n manylu ar y camau y gall sefydliadau'u cymryd i wreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ymhellach, a'n helpu ni i gyflawni nodau llesiant cenedlaethol Cymru. |

| | | |
|---|---|---|
| | Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Prosiectau | Fframwaith ar gyfer sicrhau fod cyrff cyhoeddus (ac eraill) yn defnyddio'r Ddeddf fel fframwaith ar gyfer meddwl. |
| **Hirdymor** | Pecyn Cymorth Tri Gorwel | Canllaw hawdd ei ddefnyddio er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i feddwl a chynllunio'n well ar gyfer yr hirdymor, drwy gynnal gweledigaeth glir ac ystyried tueddiadau'r dyfodol. |
| **Costau byw** | Costau Byw: Nawr ac yn y Dyfodol | Er nad yw rhai o'r penderfyniadau polisi hyn yn rhan o orchwyl y BGC, hoffem eich annog i ystyried beth sy'n bosib a grym y BGC i eiriol gerbron Llywodraeth Cymru (ac eraill) o ran newid polisi a fyddai o fudd i'ch cymunedau. |
| **Caffael** | Caffael llesiant yng Nghymru | Adolygiad i'r modd y mae'r Ddeddf yn addysgu caffael yng Nghymru, yn ogystal ag argymhellion ar gyfer cyrff cyhoeddus. |
| **Newid hinsawdd ac anghydraddoldeb** | Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol | Ein hadroddiad gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n tynnu sylw at ddyfodol gwaith, newidiadau mewn demograffeg, a sut y gallai newid hinsawdd gynyddu'r anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes pe na ystyrid yr effeithiau ar grwpiau gwahanol mewn cymdeithas. |
| | Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol, Rhan Dau: Cymunedau a Newid Hinsawdd yng Nghymru'r Dyfodol | Mae'n canolbwyntio ar ymwneud ac mae'n cynnwys adnoddau ar gyfer llunwyr polisi i weithredu technegau creadigol ar gyfer dyfodoli er mwyn cynnwys cymunedau mewn meddwl hirdymor. |
| **Sgiliau** | Sgiliau drwy Argyfwng: Uwchsgilio ac (Ail)Hyfforddi ar gyfer Adferiad Gwyrdd yng Nghymru | Dadansoddiad sy'n dangos y potensial a geir mewn buddsoddi mewn swyddi a sgiliau gwyrdd ar gyfer adferiad ffyniannus, gwyrdd a chyfartal. |
| **Datgarboneiddio cartrefi** | Cartrefi addas ar gyfer y Dyfodol: Yr Her Ôl-osod | Anelir at lywodraethau Cymru a'r DU, gan amcanu'r cyllid fyddai angen ei gael ar gyfer datgarboneiddio cartrefi yng Nghymru, amlygu'r bylchau mewn cyllid a'r dulliau o fynd i'r afael â nhw. |
| **Arfer dda** | Astudiaethau achos | Esiamplau da o'r modd y mae'r Ddeddf yn cael ei gweithredu ar lawr gwlad ledled Cymru. |

# Atodiad 1b:

# Ymateb Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

## Cynllun llesiant drafft BGC Ceredigion

Cyngor gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

11 Hydref 2022

Diolch am rannu eich cynllun llesiant drafft gyda ni ar 13eg Gorffennaf. Wrth i'ch gwaith ddatblygu dros yr haf, fe wnaethoch chi hefyd rannu fersiwn wedi'i ddiweddaru o'ch cynllun gyda ni ar 14 Medi i ni ei ystyried.

Mewn ymateb, rydym wedi darparu dwy set o gyngor i chi: ar 22 Awst a 20 Medi. Ar gyfer eich cofnodion, nodir y cyngor hwn isod mewn un ddogfen.

## Cyngor wedi'i rannu â BGC Ceredigion ar 20 Medi 2022

Diolch am rannu eich cynllun llesiant drafft diweddaraf gyda ni ar 14eg Medi 2022. Rydym yn ddiolchgar am weld eich cynllun drafft diweddaraf. Mae'n darllen yn dda ac mae'n uchelgeisiol o ran ei chwmpas a'r camau gweithredu posibl y mae'n eu hamlinellu.

Fel y gwyddoch, fe wnaethom rannu ein cyngor cynnar ar eich cynllun drafft cyntaf gyda chi ar 22 Awst 2022.
Nid yw'r cyngor a nodir isod yn disodli ein cyngor cynharach. Yn hytrach, bwriedir iddo fod yn ddefnyddiol wrth i chi barhau i fireinio'r cynllun, a dylid darllen y ddwy set o gyngor ar y cyd.

Er ein bod wedi cael amser cyfyngedig i fyfyrio ar eich cynllun diweddaraf, rydym yn gobeithio y bydd y cyngor isod yn ddefnyddiol.

**Amcan trawsbynciol**

- Mae'n amlwg bod y meddylfryd ar eich amcan trawsbynciol ar fynd i'r afael â chaledi a thlodi wedi datblygu o'r drafft cyntaf, yn enwedig gan gynnwys 3 cham.
- Bydd llwyddiant yr amcan trawsbynciol hwn yn dibynnu i raddau helaeth ar ansawdd y sgyrsiau yr ydych yn eu cael gyda'ch cymunedau, yn yr achos hwn, Aberteifi. Rydym yn eich cyfeirio at ein sylwadau ymhellach isod ar gyfranogiad a phwysigrwydd gwreiddio cydgynhyrchu.

**Amcan llesiant 1**

- 1.1.Yn croesawu ychwanegu'r testun sy'n dweud 'gan gynnwys uwchsgilio ac ailhyfforddi ar gyfer economi werdd.' Rydym yn gwerthfawrogi efallai nad yw union eglurder y cam hwn yn glir eto, ond mae dealltwriaeth, cynnydd a llwyddiant ar gyfer y cam hwn (ynghyd â llawer o rai eraill) yn dibynnu i raddau helaeth ar bwy rydych chi'n gweithio gyda nhw ac yn eu cynnwys. Felly rydym yn eich annog i wneud cysylltiadau clir â phwysigrwydd cydweithio a chynnwys yn y testun ategol.
- 1.1. parhad. Mae'n gadarnhaol gweld y cysylltiadau â'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn y testun uchelgeisiau, ond dylai'r berthynas hon weithio'r ddwy ffordd, lle mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol hefyd yn ystyried y data a'r wybodaeth helaeth yr ydych wedi'u cyflwyno yn eich asesiad llesiant. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer eu meddwl a'u cynllunio.
- 1.2 Fel y gwyddoch, nid yw'r meini prawf ar gyfer gwneud cais i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cynnwys nac yn cyfeirio at ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae gan y BGC rôl bwysig i'w chwarae ac rydym yn atgoffa pob BGC i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn

ailadrodd bod unrhyw brosiectau sy’n cael eu datblygu yn unol â’r dull polisi hirdymor blaengar yr ydym wedi’i sefydlu yng Nghymru drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (“y Ddeddf”). Mae’r rhwymedigaethau hyn yn parhau i fod yn berthnasol i bopeth y mae cyrff cyhoeddus a BGCau yn ei wneud, gan gynnwys wrth wneud cais am gyllid o’r tu allan i Gymru. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i unrhyw gynigion ddangos sut y byddai’r cyllid yn eich galluogi i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni eich amcanion llesiant a chydymffurfio â’r egwyddor datblygu cynaliadwy.

- 1.4 Rydym yn eich cyfeirio at ein cyngor cynharach lle gofynnwyd am sicrwydd eich bod wedi ystyried y darlun ehangach ar yr economi sylfaenol yng Nghymru, ac wedi rhannu cysylltiadau amrywiol. Roeddem yn rhagweld y gallai hyn fod wedi'i ymgorffori mewn geiriad wedi'i ddiweddaru ar gyfer y cam hwn ond nid yw'r geiriad wedi newid. Os yw’r ffocws ar adroddiad CLES yn unig, byddai’n ddefnyddiol gwybod pa argymhellion, yn benodol, yr ydych yn ceisio eu cyflawni.
- 1.5. Croesawu ymrwymiad y BGC i waith teg hefyd. Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru adnoddau ar waith teg yma a allai fod yn ddefnyddiol i chi.
- Cyffredinol: A oes unrhyw gyfleoedd i wneud y cysylltiadau yma â phwynt 4d ym mhapur ategol CNC, sy’n nodi sut y gall Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus helpu i gymell economi leol adfywiol lle caiff effeithiau amgylcheddol cynhyrchu a defnyddio eu lleihau? Maent yn cynnwys enghreifftiau megis caffael lleol, caffis atgyweirio, systemau bwyd lleol, cyrchu ynni o wastraff ac ynni adnewyddadwy, lleihau deunydd pacio, taliadau am wasanaethau ecosystem, cymell rhwydweithiau teithio llesol integredig. Mae hyn yn berthnasol i bob un o'ch pedwar amcan.

**Amcan llesiant 2**

- 2.1.2. Croesawu’r cyfeiriad ychwanegol at bresgripsiynu cymdeithasol, gwyrdd a glas.
- 2.3 Yn ailadrodd ein sylw cynharach, er ei bod yn gadarnhaol iawn gweld cam sy’n canolbwyntio ar fwyd, mae’r cam drafft fel y mae wedi’i eirio (h.y. ‘archwiliwch y cyfleoedd…’ ) o bosibl ychydig yn amwys ac efallai y bydd angen ei ystyried ymhellach i sicrhau bod y gweithgareddau yr ydych yn ceisio eu cyflawni yn glir ac yn gyraeddadwy.
- 2.4 Noder bod cam 2.4 wedi’i symud o amcan llesiant 3 (drafft cyntaf) i amcan llesiant 2, sy’n cyd-fynd yn well ac a ddylai ategu’r camau eraill a nodir yn amcan 2.

**Amcan llesiant 3**

Yn y drafft diweddaraf, mae'r camau'n gliriach ac yn gryfach na'r drafft gwreiddiol. Yn unol â’n cyngor cynharach, bydd cydweithio rhwng partneriaid y BGC a phartneriaid pwysig eraill yn hollbwysig er mwyn gwneud cynnydd yn y maes hwn. Byddai’n cryfhau’r cynllun drafft pe gallai hyn ddod ar draws mwy, naill ai yng ngeiriad y camau neu’r testun ategol.

Rydym wedi trafod pwysigrwydd hyblygrwydd o fewn y cynllun a chanfod cydbwysedd yn eich camau rhwng dyhead a manylion. Mae’n heriol cael y cydbwysedd hwn yn iawn, ac rydym yn gwerthfawrogi eich ystyriaeth o hyn. Os ydych chi'n ei chael hi'n anodd cael mwy o fanylion mewn cam, rydyn ni'n argymell ceisio gwneud y dolenni a'r cysylltiadau o fewn y testun ategol. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer darparu'r cyd-destun cywir o fewn y cynllun.

- 3.1 Fel y’i geir, dim ond at ‘weithgarwch datgarboneiddio’ y mae’r cam yn cyfeirio. A all hyn fynd ymhellach a chynnwys rhai o’r meysydd y bydd y BGC o bosibl yn canolbwyntio arnynt? Er enghraifft, fflyd, adeiladau, caffael ac ati?
- 3.2 Croesewir ychwanegu cam 3.2 ond efallai ei bod yn aneglur i ddarllenwyr ac aelodau'r cyhoedd beth yn union yw ystyr 'mesurau atal llygredd ategol' ac ymddengys nad oes llawer o gysylltiad rhwng y cam ei hun a'r testun ategol o dan amcan 3. Fel uchod, byddai'n ddefnyddiol pe gellid ehangu hyn ychydig fel ei fod yn haws ei ddeall, neu roi cyd-destun pellach yn y testun ategol.
- 3.3 Croesawu ychwanegu’r cam hwn a’ch cyfeirio at gam 4b ar ‘Gwella iechyd ein hecosystemau’ ym mhapur ategol CNC er mwyn rhoi ystyriaeth bellach i rai o’r meysydd y mae’n eu hamlygu sy’n berthnasol yma, yn ogystal ag ystyried cysondeb iaith.
- 3.4 Croesawu cynnwys y cam hwn a'i uchelgais. Mae cysylltiadau cryf yma â’r camau gweithredu a amlygwyd gan CNC yn eu papur, yn enwedig 4a, 4c i a ii a 4d. Fel uchod, rydym yn gwerthfawrogi y bydd hyblygrwydd yn bwysig ond argymhellwn y dylid rhoi ystyriaeth bellach i feysydd 4a, 4c a 4d o bapur CNC i helpu i roi rhywfaint o eglurder ar y cam(au) penodol y byddwch yn edrych arnynt.

**Amcan llesiant 4**

Gan nad oes unrhyw newidiadau sylweddol i'r amcan na'i gamau ategol, rydym yn eich cyfeirio at ein cyngor cynharach.

Ar gam 4.2, mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi cynghori y dylai eich cynllun llesiant gyd-fynd â'ch Strategaeth Hybu'r Gymraeg a gallai hyn fod yn ddefnyddiol i chi wrth nodi pa bartneriaid lleol i ymgysylltu â nhw. Ynghlwm mae adnoddau Comisiynydd y Gymraeg 'Ystyried y Gymraeg yn y Cynlluniau Llesiant Lleol' a gobeithiwn y byddant yn ddefnyddiol i chi.
Gan adeiladu ar gynnwys cam 4.6, byddai'n ddefnyddiol pe gellid darparu cyd-destun pellach yn y testun ategol. Er enghraifft, gwybodaeth am ba bartneriaethau y mae'r BGC yn bwriadu eu ffurfio a'r hyn y maent yn bwriadu ei gyflawni.

**Cyngor pellach ar gynnwys a chydgynhyrchu**
Fel yr ydym wedi'i drafod, bydd llwyddiant eich cynllun yn dibynnu i raddau helaeth ar y graddau y mae'r BGC a'i grwpiau ategol yn cymhwyso'r 5 ffordd o weithio.

Mae'n wych gweld y ffocws y mae eich cynllun drafft yn ei roi ar ddefnyddio dull seiliedig ar le, a'r bwriad o weithio gyda'ch cymunedau i helpu i ysgogi newid a gwella llesiant. Gyda hyn mewn golwg, rydym yn atgoffa BGCau y dylai cyfranogiad cymunedau ddigwydd drwy gydol y pum mlynedd nesaf o gyflawni'r Cynllun Llesiant, nid yn unig yn ystod ei ddatblygiad, a bod symud tuag at ffordd fwy cydgynhyrchiol o weithio yn cael ei ystyried yn arfer da. Bydd y gefnogaeth a gewch fel clwstwr rhanbarthol gan Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru yn amhrisiadwy yma.

Mae arfer cynnwys a chydgynhyrchu yn ffyrdd penodol o weithio ac mae sefydlu'r ffyrdd hyn o weithio'n llwyddiannus yn gofyn am fuddsoddiad o amser ac adnoddau i staff ddatblygu'r sgiliau hyn. Mae cael mynediad at yr hyfforddiant a'r cymorth angenrheidiol ar y cyd yn fuddiol o ran ymrwymiad a chost.

Mae darparu hyfforddiant rheolaidd trwy fforymau rhanbarthol a chenedlaethol yn ffordd bwysig o barhau i ddarparu gwerth i aelodau'r fforymau hyn, ac i gynyddu aelodaeth. Rydym yn annog BGCau i fuddsoddi mewn ymuno â'r mecanweithiau hyn i rannu arfer, gweithio drwy heriau mewn partneriaeth â BGCau eraill a dysgu oddi wrth ei gilydd. Mae cyfranogiad a chyd-gynhyrchu ystyrlon yn cymryd pobl sy'n wirioneddol angerddol am ei roi ar waith.

Ar lefel gwneud penderfyniadau, rydym hefyd yn annog BGCau i gynnal ymarfer i nodi lle mae cyfleoedd ystyrlon a chyraeddadwy i newid ffyrdd o weithio, a manteision amlwg gwneud hynny, yn ogystal ag edrych ar yr heriau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried eich camau i fabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar le.

<u>Grwpiau a phlant a phobl ifanc 'anodd eu cyrraedd'</u>
Gyda'ch ffocws ar le yn Aberteifi, bydd yn hollbwysig cynnwys a chydgynhyrchu gwell gyda grwpiau 'anodd eu cyrraedd' a phlant a phobl ifanc yn y broses cynllunio llesiant. Fe'ch anogir i wneud ymarferiad i nodi'r unigolion a'r grwpiau sydd yn y sefyllfa orau i gynnwys cymunedau penodol yn y broses cynllunio llesiant. Defnyddio sianeli cynnwys sydd eisoes yn gwneud y gwaith hwn yn llwyddiannus, fel staff rheng flaen a phrosiectau trydydd sector. Dylai BGCau hefyd gynnwys eu sefydliadau trydydd sector lleol yn y gwaith hwn, lle mae enghreifftiau gwych o berthnasoedd ymroddedig rhwng cymunedau 'anodd eu cyrraedd' a'r gwasanaethau y maent yn cael mynediad iddynt wedi'u hwyluso. Dylai gwaith o'r natur hwn fod yn barhaus.

Nid yw llesiant a gwaith y BGC bob amser yn bynciau trafod diriaethol. Nid yw'r sgyrsiau mwyaf llwyddiannus i ddysgu am sut mae unigolion a chymunedau'n teimlo am lesiant o reidrwydd yn ymwneud â llesiant. Dylai BGCau geisio siarad â chymunedau am yr hyn y maent am siarad amdano a thynnu'r negeseuon llesiant allan, nid y ffordd arall.

# 2 Cyngor wedi'i rannu â BGC Ceredigion ar 22 Awst 2022

Rydym yn ddiolchgar am weld eich 4 amcan a cham llesiant drafft yn gynnar, a rannwyd gyda ni ar 13 Gorffennaf 2022. Fel y dywedasoch, mae'r amcanion yn rhai lefel uchel, gyda phob un yn eistedd o dan un o ddimensiynau

llesiant. Fe wnaethoch chi hefyd dynnu sylw at 'Mynd i'r afael â chaledi a thlodi' yn thema drawsbynciol.

Fe wnaethom nodi eich sylwadau ar gwmpas posibl y gwaith, a phwysigrwydd canolbwyntio ar ble y gall y BGC ychwanegu gwerth cyfunol orau. Yn ein cyfarfod cychwynnol, roedd yn galonogol eich clywed yn dweud y gallai ac y byddai eich camau drafft yn adlewyrchu'r ymgysylltu yr oeddech yn ei wneud, ac y byddai hyblygrwydd.

Ar y cyfan, mae'n wych gweld y ffordd yr ydych wedi fframio'r ddogfen ddrafft: defnyddio pedwar dimensiwn llesiant; ystyried canfyddiadau eich asesiad llesiant; deall beth sydd angen ei gyflawni (yn strategol) ac yna edrych ar yr hyn y gall y BGC ei wneud yn ei gylch.

**Amcan llesiant drafft 1: llesiant economaidd**
Yn y testun ategol, mae'n gadarnhaol gweld cyfeiriad at y ddemograffeg sy'n newid, newidiadau i batrymau gwaith a phwysigrwydd seilwaith/cysylltedd digidol. Mae hefyd yn dda eich gweld yn tynnu sylw at eich uchelgais i gefnogi gwaith y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol i helpu i sicrhau bod anghenion lleol a bylchau sgiliau yn cael sylw.

<u>Amcan 1, cam 1.1</u>
- Gwych gweld ffocws cydweithredol y cam.
- Er ei fod yn cyfeirio at nodi bylchau, rydym yn eich annog i sicrhau eich bod yn edrych yn y tymor hwy ar y sgiliau a'r hyfforddiant sydd eu hangen i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n wynebu Ceredigion a Chymru. Er enghraifft, mae ymchwil yn dweud wrthym fod gan y sector amgylcheddol y potensial ar gyfer creu swyddi sylweddol i helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, ond nid oes gennym y bobl na'r sgiliau ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd i lenwi'r swyddi hynny. Mae ein hadroddiad ar uwchsgilio ac ailhyfforddi ar gyfer adferiad gwyrdd yng Nghymru yma.
- Gan fynd ymhellach, a ellid ystyried a allai uchelgais y cam fynd y tu hwnt i fynd i'r afael â bylchau ac o bosibl geisio arwain y ffordd mewn maes penodol? Bydd manylion y cam hwn yn bwysig, ac yn debygol o gael eu llunio trwy gynnwys sefydliadau eraill ac aelodau'r cyhoedd. Beth all pob sefydliad ei wneud eu hunain? Sut y gallant chwarae rhan fel 'sefydliadau angori' allweddol yn y sector cyhoeddus wrth annog hyfforddiant a chyflogaeth mewn sectorau eraill?
- Dylid ystyried pa gamau gweithredu wedi'u targedu a pharhaus y gallai fod eu hangen i sicrhau mynediad i'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur yn eich ardal, e.e. pobl anabl, menywod a phobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.
- Os mai'r uchelgais yw helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau presennol yn yr ardal, gellid gwneud hyn yn fwy eglur yn y cam neu'r testun ategol.

<u>Amcan 1, cam 1.2</u>
- Fel uchod, mae'n gadarnhaol gweld ffocws cydweithredol y cam hwn.
- Rhaid i unrhyw gynigion a gyflwynir i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ddangos sut y byddai'r cyllid yn eich galluogi i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni eich amcanion llesiant a chydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

<u>Amcan 1, cam 1.3</u>
- Wrth ystyried pedwar dimensiwn llesiant yn yr ardaloedd, mae gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus rôl unigryw ac arwyddocaol i'w chwarae yn eu rhanbarthau a'r dirwedd bartneriaeth ehangach. Yn hytrach na bod yn 'ymwybodol o', rydym yn argymell bod y geiriad yn cael ei gryfhau i adlewyrchu'r rôl bwysig y gall BGCau ei chwarae wrth ddylanwadu ar y dirwedd ehangach hon (e.e. bargeinion twf rhanbarthol, CJCs ac ati).
- I roi enghraifft, mae CNC yn argymell bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwneud cysylltiadau cliriach â'u twf priodol a'u fframweithiau economaidd rhanbarthol ar draws ystod o feysydd fel ynni, yr economi a sgiliau, ac yn ceisio dylanwadu ar y partneriaethau hyn i fabwysiadu ymagwedd fwy 'cynhwysol' at fesur llwyddiant economaidd i helpu i leihau'r pwysau economaidd-gymdeithasol cynyddol ar fioamrywiaeth.

<u>Amcan 1, cam 1.4</u>
Rydym yn croesawu'r cam ar yr economi sylfaenol. O ystyried y ffocws penodol ar CLES, sy'n ffurfio un rhan (pwysig) o dirwedd yr economi sylfaenol yng Nghymru, byddem yn ceisio sicrwydd eich bod wedi ystyried y darlun ehangach. Er enghraifft:

- Cynllun Cyflawni'r Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru (Ebrill 2021), sy'n amlinellu ymyriadau polisi i gryfhau'r economi sylfaenol. Mae hyn yn cyfeirio at waith CLES fel un o'r meysydd cyflawnadwy.
- Adroddiad 2020 'Caffael yn yr Economi Sylfaenol'
- Busnes Cymru
- Cynllun Gweithredu Economaidd Cymru
- Gwaith Bwrdd Cynghori Gweinidogol yr Economi Sylfaenol.

**Amcan llesiant drafft 2**

Sylwadau cyffredinol
Mae'n wych gweld cydnabyddiaeth o benderfynyddion ehangach iechyd a bydd yn bwysig blaenoriaethu cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ar weithgareddau ataliol sylfaenol ac eilaidd. Mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 yn argymell bod cyrff cyhoeddus a BGCau yn ceisio cydweithredu y tu hwnt i bartneriaid traddodiadol i fynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd. Er bod cydweithio wedi dod ar draws fel cryfder yn ein trafodaethau hyd yn hyn, a'ch asesiad llesiant, gellid pwysleisio'r ffordd hon o weithio yn fwy o fewn yr amcan hwn.

Croesawu'r ffocws cryf, clir ar gymryd ymyriad seiliedig ar le yn Aberteifi i helpu i leihau anghydraddoldebau a rhannu'r hyn sy'n gweithio y tu hwnt. Er eglurder, byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r testun ategol ar gyfer amcan drafft 2 gynnwys esboniad o beth yw 'ymyriadau seiliedig ar le', sut olwg fydd arnynt ar gyfer eich ardal a sut y gallent fod yn wahanol i ddulliau blaenorol.

Yn seiliedig ar eiriad presennol amcan drafft 2, mae'n bosibl y gellid rhoi ystyriaeth bellach i adlewyrchu'r cryfderau a'r enghreifftiau presennol yn y maes a sut y gallai'r rhain fod yn sail i ddysgu a symud ymlaen. Er enghraifft, trwy 'Datblygu Cymunedol yn Seiliedig ar Asedau'.

Mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 yn argymell buddsoddi mewn a gwerthfawrogi'r rôl bwysig y mae mannau gwyrdd a glas bioamrywiol yn ei chwarae wrth gefnogi iechyd a llesiant cymunedol pobl. Mae'n gadarnhaol felly gweld yr uchelgais ar bresgripsiynu cymdeithasol, gwyrdd a glas. Er bod ffocws hyn yn gryf o fewn y testun ategol, mae'n cael ei golli rhywfaint yng ngeiriad presennol y camau. A oes cysylltiadau i'w gwneud â datblygiadau cenedlaethol yn y maes hwn, megis fframwaith cenedlaethol arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer rhagnodi cymdeithasol?

Amcan 2, cam 2.1
- Byddai'n ddefnyddiol deall pa ystyriaeth a roddwyd i waith a gweithgaredd a fydd eisoes wedi digwydd i fapio asedau ac adnoddau yn yr ardal. Er enghraifft, bydd CNC eisoes yn cadw gwybodaeth helaeth am ardal Aberteifi.
- Mae 'ymyriadau seiliedig ar le' yn cael eu harchwilio gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill, a gall hwn fod yn faes lle gellir rhannu dysgu a chynnydd trwy gydweithio. Er enghraifft, rydym yn ymwybodol bod Cwm Taf Morgannwg yn defnyddio GIS i fapio eu hasedau cymunedol.
- Mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 yn argymell integreiddio iechyd a llesiant i'ch amcanion llesiant eraill. Gyda hyn mewn golwg, a ellir gwneud cysylltiadau rhwng y cam hwn a'ch cam yn amcan 3 i 'Weithio gyda chymunedau sydd am reoli a gwella eu hamgylchedd lleol a'u cefnogi'? Mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn argymell blaenoriaethu creu lleoedd a dylunio iechyd a llesiant cymunedol – galluogi lleoedd i gefnogi iechyd a llesiant pobl a chymunedau.
- Rydym yn eich annog i nodi a nodi unrhyw rwystrau neu densiynau a all fodoli gyda'r amcan hwn, ac unrhyw gamau posibl y gallwch chi (neu eraill) eu cymryd i gael gwared arnynt.
- Yn unol â'r sylwadau isod ar y cysylltiadau rhwng amcanion drafft 2 a 4, a ellir ystyried helpu i integreiddio diwylliant i'r amcan hwn gymaint â phosibl hefyd, o ystyried y pwyslais ar y dull seiliedig ar le?

Amcan 2, cam 2.2
- Er ei bod yn gadarnhaol gweld cam sy'n canolbwyntio ar fwyd, fel y nodir, mae'r cam drafft yn eang ac efallai y bydd angen ei ystyried ymhellach i sicrhau bod y gweithgareddau a nodir yn realistig ac yn gyraeddadwy.
- A ellir gwneud cysylltiadau ehangach â chyflwyno prydau ysgol am ddim i blant ysgolion cynradd yng Nghymru (o fis Medi 2022), cynnydd lleol a chenedlaethol allweddol arall yn y maes hwn yn ogystal â'ch

caffaeliad eich hun? Er enghraifft, rydym yn deall bod Ceredigion yn caffael Pecynnu a Chynhyrchion Arlwyo fel rhan o'r broses gaffael a bod hyn ar fin cael ei adnewyddu ym mis Medi 2022. Gallai hyn fod yn amserol ac yn ddefnyddiol wrth ystyried lleihau allyriadau carbon – gweler cefnogaeth WRAP yma.

- Bydd cynnwys pobl sy'n angerddol am gydraddoldeb bwyd a ffyniant cymunedol yn hanfodol ar gyfer datblygu'r cam hwn ymhellach ac efallai y bydd potensial i ddefnyddio ac integreiddio'r cymorth y byddwch yn ei gael gan Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru yn y maes hwn, gan sicrhau eich bod yn 'gweithio gyda' eich cymunedau lleol i helpu i wireddu eich uchelgais o ddod yn lle bwyd cynaliadwy i Geredigion. Er enghraifft, tra nad yw Planna Fwyd! yn rhedeg mwyach ac roedd wedi'i leoli ychydig y tu allan i ffin swyddogol Ceredigion, mae llawer o'r mentrau bach llwyddiannus y gwnaeth helpu i'w sefydlu yn dal i redeg ac maent yn helpu cymunedau lleol, fel y pecynnau hadau teulu, byddin y tir a blychau llysiau undod.
- Rydym mewn trafodaethau rheolaidd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar BGCau ac mae gwaith sy'n canolbwyntio ar iechyd, anghydraddoldebau a chostau byw. Byddem yn hapus i'ch cyfeirio at gymorth posibl a/neu ddolenni i BGCau eraill pe byddai hyn o gymorth.

**Amcan llesiant drafft 3**
Mae'n galonogol gweld y ffocws ar fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a gweld cyfeiriad at eich Asesiad llesiant o ran dangos y gwerth y mae pobl leol yn ei roi ar eu hamgylchedd lleol a'r rôl hanfodol y mae'n ei chwarae yn eu llesiant.

Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y ddogfen ddrafft yn canolbwyntio ar gynlluniau ynni adnewyddadwy, Aberystwyth yn cyflawni statws sero net erbyn 2030 a chefnogi cymunedau sydd am reoli a gwella eu hamgylchedd lleol. Fel y dywedwch: "bydd datgarboneiddio yn heriol ac mae angen ystyried yn ofalus sut y caiff ei weithredu." Gyda hyn mewn golwg, byddai'n ddefnyddiol gwybod:

- Os yw'r BGC yn glir beth allai wneud y cyfraniad mwyaf at ddatgarboneiddio yn yr ardal?
- Pa grwpiau/sefydliadau ydych chi wedi'u nodi sy'n gweithio tuag at nodau tebyg yn yr ardal/rhanbarth? Er enghraifft, a yw'r BGC yn cynnwys cynrychiolwyr o addysg uwch yr ardal i'w waith, megis Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Aberystwyth a'r Ganolfan Dechnoleg Amgen (CAT) sydd wedi'i lleoli ym Machynlleth, Powys gerllaw? Bydd yr amcan hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ystod eang o bobl gymryd rhan ac weithiau bydd gan y 'rhai anarferol' yr atebion gorau i broblemau hirsefydlog.
- Mae Ceredigion wedi'i bendithio ag amgylchedd naturiol eithriadol a threftadaeth ddiwylliannol gref. A all yr asedau hyn helpu i ysgogi rhywfaint o'r meddylfryd y tu ôl i'r amcanion a'r camau drafft? Er enghraifft, beth yw rôl bosibl yr arfordir a/neu amaethyddiaeth o fewn yr amcan hwn? A oes cysylltiadau ag amcan 2 ynghylch hybu iechyd a datrysiadau gwyrdd? A oes cysylltiadau posibl ag amcan 1 gyda chyfleoedd hyfforddi?
- A allai'r camau ystyried cyfleoedd traws-genhedlaeth o fewn cymunedau, yn ogystal â gweithgaredd sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc?

Ynghlwm wrth y sylwadau hyn mae dogfen 3 tudalen ddefnyddiol a gynhyrchwyd gan CNC i'n swyddfa ei rhannu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'n canolbwyntio ar gamau posibl y gall BGCau eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur.

Er ein bod yn argymell eich bod yn ystyried y pedwar maes a nodir yn y papur, yn seiliedig ar yr amcanion drafft a'r camau yr ydych wedi'u rhannu, argymhellwn y dylid rhoi sylw arbennig i '2 Sicrhau Pontio Cyfiawn' (gyda'ch cam ar Aberystwyth yn cyflawni sero-net mewn meddwl), a '4 Darparu ymyriadau cydweithredol' y gallech eu hystyried gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill yn eich rhanbarth (yn ogystal â sefydliadau/academaidd eraill), gan adeiladu ar y perthnasoedd cryf sydd eisoes yn bodoli.

Sylwch, cyfeiriwyd uchod at eu cyngor ynghylch '3 Dylanwadu ar newid yn y mesurau o lwyddiant economaidd' mewn perthynas ag amcan 1, cam 1.3.

**Amcan llesiant drafft 4**
Mae hwn yn amcan eang sy'n cwmpasu llesiant cymunedol, diogelwch, amrywiaeth ddiwylliannol a'r iaith Gymraeg. O ystyried maint ac ehangder y gweithgareddau o fewn yr amcan hwn, ein cyngor yw eich bod yn archwilio ac yn nodi cyfleoedd i integreiddio rhai o'r gweithgareddau a amlinellir yn eich amcanion a'ch camau eraill. Er enghraifft:

- A oes cysylltiadau posibl rhwng cefnogi strategaeth ddiwylliannol ar gyfer yr ardal (cam 4.1) a'r cam o fewn amcan 1 i gefnogi'r economi sylfaenol a'r camau o fewn amcan 2 lle'r ydych yn ceisio mabwysiadu dull seiliedig ar le?
- A oes cyfleoedd i fynd ar drywydd ac integreiddio eich uchelgeisiau ar gyfer y Gymraeg drwy weithgareddau eraill, megis eich camau sy'n canolbwyntio ar sgiliau, ymyriadau seiliedig ar le, yr economi sylfaenol a/neu strategaeth ddiwylliannol, a thrwy hynny gryfhau eu heffaith y tu hwnt i ddyletswydd statudol?
- Byddai'n ddefnyddiol deall sut mae menter gymunedol yn cael ei hystyried o fewn yr amcan hwn? Mae cysylltiadau clir â cham 1.4 ar yr economi sylfaenol a'r uchelgeisiau o fewn amcan 2 ar ymyriadau seiliedig ar le. Ac yn gysylltiedig ag amcan 1, a oes ymyriadau cydweithredol y gallai'r BGC eu hystyried i gymell economi leol adfywiol lle mae effeithiau amgylcheddol cynhyrchu a defnyddio yn cael eu lleihau? Fel y mae CNC wedi'i nodi yn ei bapur atodedig, gallai enghreifftiau o hyn gynnwys caffael lleol (cam 1.4), caffis atgyweirio, systemau bwyd lleol (amcan 2), cyrchu ynni o wastraff ac ynni adnewyddadwy (amcan 3), lleihau pecynnu, taliadau am ecosystemau gwasanaethau, gan gymell rhwydweithiau teithio llesol integredig.
- O'r geiriad drafft, nid yw'n ymddangos bod llawer o gyfeiriadau penodol at chwaraeon neu gelfyddyd (gyda chysylltiadau posibl ag amcan drafft 2). Er efallai nad yw'r rhain yn flaenoriaethau i'r BGC ar hyn o bryd, efallai y bydd cyfleoedd i archwilio'r meysydd hyn ymhellach gyda Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru (a leolir yn Aberystwyth).

Rydym yn eich annog i ystyried y rhyng-gysylltiadau rhwng eich blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg er mwyn helpu i lywio eich penderfyniadau am y camau mwyaf effeithiol a phwy fydd angen eu cynnwys. Bydd hyn yn eich helpu i wneud y cyfraniad mwyaf posibl ar draws 7 nod llesiant Cymru.

O ran cyfranogiad, rydym yn deall y bydd Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru nawr yn cefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Wrth i chi ddatblygu eich amcanion a'ch camau dros yr haf, byddai'n ddefnyddiol deall:

- Sut mae'r gwaith hwn yn cael ei lywio gan randdeiliaid allweddol dros gyfnod yr haf, ac yn enwedig eu hanghenion a'u heriau?
- Sut y gall y rhanddeiliaid allweddol yr effeithir arnynt gan yr amcanion a'r camau barhau i ddylanwadu ar y prosiect drwy gydol ei oes?

## Crynodeb o weithgarwch rhwng BGC Ceredigion a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ystod y cyfnod ymgynghori 14 wythnos

Isod mae cofnod o ohebiaeth yn ystod y cyfnod ymgynghori:

| Date | Activity | Comments |
|---|---|---|
| 1 Gorffennaf 2022 | E-bost yn sbarduno ymgynghoriad 14 wythnos. | • Rhannu 4 amcan drafft. |
| 13 Gorffennaf 2022 | Cyfarfod cyntaf rhwng Ceredigion ac OFGC | • Cyfarfod rhagarweiniol cadarnhaol.<br>• Graddfeydd amser 14 wythnos y cytunwyd arnynt.<br>• Diweddariad gan Geredigion ar y cyfnod rhwng yr asesiad llesiant a drafftio amcanion a chamau.<br>• Cytunodd Ceredigion i rannu amcanion a chamau drafft ar gyfer syniadau cynnar OFGC.<br>• Croesawyd y ddeialog barhaus a chytunwyd i gyfarfod eto ddiwedd mis Awst. |
| 13 Gorffennaf 2022 | E-bost o Geredigion i OFGC | • Rhannu amcanion a chamau drafft ag OFGC. |

| | | |
|---|---|---|
| 17 Awst 2022 | Ail gyfarfod rhwng Ceredigion ac OFGC | • Diweddariadau gan Geredigion ac OFGC<br>• Cytunodd OFGC i rannu sylwadau cychwynnol ar ddydd Llun 22 Awst.<br>• Cytunwyd i gyfarfod ar 1 Medi cyn cyfarfod y BGC ar 20 Medi i barhau i drafod cynnydd a chyngor. |
| 22 Awst 2022 | E-bost OFGC i Geredigion | • Cyngor a sylwadau cychwynnol i Geredigion, yn seiliedig ar y cynllun drafft a rannwyd ar 13eg Gorffennaf. |
| 24 Awst 2022 | Ceredigion e-bost i OFGC | • Matrics synergedd a rennir yn cael ei ddefnyddio i ddangos synergedd rhwng cynlluniau a strategaethau allweddol eraill. |
| 1 Medi 2022 | Trydydd cyfarfod rhwng Ceredigion ac OFGC | • Trafod diweddariadau, cynnydd ac amserlenni. |
| 2 Medi 2022 | Gohebiaeth e-bost rhwng OFGC a Cheredigion | • Gofynnodd Ceredigion am ragor o wybodaeth ar sut y gallai'r BGC fynd i'r afael â bylchau sgiliau yng Ngheredigion – ymateb lleol i'r economi werdd yn tyfu.<br>• Ymatebodd OFGC, gan ddarparu adnoddau, gwybodaeth a chynnig cyfarfod. |
| 14 Medi 2022 | E-bost o Geredigion i OFGC | • Cynllun llesiant drafft wedi'i ddiweddaru wedi'i rannu ag OFGC i gael cyngor a sylwadau.<br>• Wedi gofyn am sylwadau erbyn 20 Medi i hysbysu cyfarfod y BGC. |
| 20 Medi 2022 | E-bost oddi wrth OFGC i Geredigion | • Rhannu ail set o gyngor gan OFGC i Geredigion, yn seiliedig ar y cynllun drafft wedi'i ddiweddaru. |
| 28 Medi 2022 | E-bost oddi wrth OFGC i Geredigion | • Crynodeb a rennir o argymhellion Adroddiad FG. |
| 11 Hydref 2022 | E-bost oddi wrth OFGC i Geredigion | • Llythyr terfynol oddi wrth OFGC yn cael ei rannu â Cheredigion. |

# Atodiad 2:
## Ymateb Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar y cynllun llesiant lleol drafft ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Diolch ichi am gael gweld Cynllun Llesiant Lleol drafft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion fel partner, ymysg ystod eang yn amlwg o randdeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw.

Mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli bod paratoi cynllun llesiant lleol yn ymrwymiad sylweddol, ac rydym yn cydnabod faint o waith sydd wedi cael ei wneud. Dyma'r ail rownd o gynlluniau, a'r gobaith yw y bydd gwersi wedi cael eu dysgu o'r fersiwn gyntaf, gan adeiladu ar yr hyn a ddigwyddodd o'r blaen.
Rydym wedi strwythuro ein hymateb i'r ymgynghoriad mewn ffordd debyg i 2018, sef fel hyn:

- Sylwadau cyffredinol sy'n crynhoi'r farn am y cynllun;
- Sylwadau mwy penodol ar y ffordd y mae'r cynllun wedi cael ei baratoi, fel sylwadau ar y ffordd y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi dewis yr amcanion;
- Tabl cryno terfynol sy'n enwi'r elfennau y byddem ni'n awgrymu a allai elwa o gael eu datblygu ymhellach. Rydym yn mabwysiadu dull cyson o ymdrin â'r materion hyn, yn debyg i'r asesiadau llesiant lleol, sydd wedi cael eu categoreiddio fel hyn:
  - Categori A – materion pwysig rydym ni'n gobeithio a fyddai'n cael sylw cyn i'r cynllun terfynol gael ei gyhoeddi. Gallent ymwneud, er enghraifft, â chydymffurfio â'r gofynion statudol neu bryderon mawr gydag elfennau allweddol o'r cynllun
  - Categori B – materion a fyddai'n cryfhau'r cynllun terfynol os byddent yn cael sylw cyn i'r cynllun gael ei gyhoeddi. Er ein bod yn cydnabod efallai na fydd hynny'n bosibl yn yr amser sydd ar ôl, rydym yn meddwl y bydd y materion pwysig hyn yn ychwanegu gwerth at y cynllun ac yn eu blaenoriaethu ochr yn ochr â'r gwaith datblygu cynnar.
  - Categori C – materion a fyddai'n cryfhau'r cynllun ond y gellid rhoi sylw iddynt wrth i'r cynllun barhau i ddatblygu ac esblygu.

Byddwn yn defnyddio'r un dull i ymateb i bob un o'r cynlluniau. Y tro hwn, rydym hefyd wedi ychwanegu atodiad cysylltiedig sy'n tynnu sylw at rywfaint o'r adborth rydym ni wedi'i gael gan arweinwyr polisi yn Llywodraeth Cymru ar y camau penodol rydych chi wedi'u dewis.

**Barn Gyffredinol**

Mae hwn yn gynllun drafft sydd wedi cael ei bwyso a'i fesur yn ofalus, ac mae hi'n amlwg bod llawer o waith wedi'i wneud i ystyried y prif flaenoriaethau sy'n deillio o'r asesiad llesiant. Edrychwn ymlaen at glywed mwy am sut byddwch yn gweithredu eich uchelgeisiau fel rhan o'r cynllun cyflawni.

**Sylwadau ar elfennau penodol o'r cynllun drafft**

**Strwythur a Fformat**

Mae strwythur da i'r cynllun drafft ac mae wedi cael ei ysgrifennu a'i gyflwyno'n glir. Mae'r cyflwyniad yn egluro'r cyd-destun i'r darllenwyr hynny sydd o bosibl yn anghyfarwydd â gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r cynllun yn egluro'n glir sut mae'r dystiolaeth a gasglwyd o'r asesiad wedi cael ei defnyddio i lywio'r cynllun. Mae'r adran ar yr amcanion llesiant wedi'i gosod yn dda ac yn llifo'n dda gyda'r tri phennawd – 'Pam yr amcan hwn', 'Ein huchelgeisiau', a 'Beth fyddwn ni'n ei wneud'; mae hyn yn egluro'r broses yn dda ac yn glir.

**Amserlenni**

At ei gilydd mae'r uchelgeisiau'n delio â'r hyn a fydd yn cael ei wneud dros oes y cynllun pum mlynedd, gyda gweledigaeth o sut le fydd Ceredigion ymhen deng mlynedd. Er ei bod yn arferol datblygu cynlluniau sy'n cyd-fynd â thymhorau etholiadol, byddem yn awgrymu bod angen mynd ati i ystyried yn fwy trwyadl y tymor hirach hy tua phum mlynedd ar hugain. Byddem yn croesawu gweld sut mae meddwl am y tymor hirach (hy, ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol) wedi cael ei ymgorffori yn y cynllun. Mae'r cyflwyniad yn cydnabod bod yr asesiad yn tynnu sylw at dueddiadau ac amcanestyniadau hirdymor o ran y boblogaeth, yr economi a'r amgylchedd ac yn helpu i sefydlu'r amcanion llesiant sy'n sail i'r cynllun. Byddem yn awgrymu y gallai'r cynllun adlewyrchu'r ystyriaeth hon am y tymor hirach yn gliriach, er enghraifft mae'n cael ei awgrymu mewn rhai uchelgeisiau fel newid yn yr hinsawdd, y Gymraeg, addysg a sgiliau, iechyd a lles corfforol a meddyliol, ond byddai modd rhoi rhagor o fanylion ym mhob un o'r penodau.

Mae'n werth nodi bod ystyr hirdymor yn amrywio mewn perthynas â gwahanol faterion. Mae nifer o adnoddau ar gael i'ch helpu i wneud penderfyniadau gwell ar gyfer yr hirdymor, gan gynnwys Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2021.

**Cynnwys**

Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'r cynllun ddarparu rhagor o wybodaeth benodol am sut rydych chi wedi defnyddio neu sut rydych chi'n bwriadu cynnwys cymunedau yn y gwaith o ddylunio a chyflawni'r amcanion. Mae'r cynllun yn sôn am gynnwys cymunedau yn ystod y gwaith o baratoi'r asesiad – a oedd yn seiliedig ar ddata, tystiolaeth a gwrando ar bobl – ond dim ond ychydig o wybodaeth sy'n cael ei rhoi am y gwaith cynnwys a gafodd ei wneud wrth ddatblygu'r cynllun ('ymgysylltwyd â busnesau, cymunedau, ac aelodau'r cyhoedd i gasglu barn...'). Nid oes unrhyw fanylion go iawn y tu hwnt i'r trosolwg byr hwn, felly mae hi'n anodd cyflwyno sylwadau llawn ar yr agwedd hon. Er enghraifft, byddai'n ddiddorol dysgu rhagor am unrhyw heriau a/neu gyfleoedd rydych chi wedi'u cael yn y broses hon.

Mae rhai o'r camau gweithredu a gymerir i gyrraedd uchelgeisiau yn sôn am gynnwys cymunedau a phartneriaid, ond eto nid oes llawer o fanylion ynghylch pwy yw'r cymunedau a'r partneriaid hyn a fydd yn cael eu cynnwys ac yn cymryd rhan. Byddai'n ddefnyddiol gwybod, er enghraifft, sut rydych chi wedi gweithio gyda phlant a grwpiau 'nas clywir yn aml', os ydych chi wedi gwneud hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydnabod, i barchu ac i gyflawni hawliau plant a chefnogi cyrff cyhoeddus i feddwl am realiti hyn yn ymarferol. Os hoffech chi gael rhagor o gymorth ymarferol ar weithredu dull gweithredu hawliau plant, ewch i Y Ffordd Gywir – Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant - Comisiynydd Plant Cymru (complantcymru.org.uk).

Bydd eich gwaith gyda Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, ynghyd â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, yn helpu i ymgysylltu'n llwyddiannus â dinasyddion a dod â grwpiau amrywiol o unigolion at ei gilydd i gydgynhyrchu atebion i broblemau lleol, gan helpu i gyflawni rhai o'r gweithgareddau rydych chi wedi'u hamlinellu. Rydym yn edrych ymlaen at glywed rhagor am hyn wrth i'r prosiect fynd rhagddo.

**Cydweithredu**

Mae hi'n braf gweld bod y cynllun yn cydnabod bod gan sefydliadau partner y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus raglenni a strategaethau unigol, ac y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ceisio gwella'r rhain pan fo hynny'n bosibl. Byddem yn eich annog i roi rhagor o fanylion am beth fydd hyn yn ei olygu. Mae rhai enghreifftiau penodol yn cael eu nodi, ac mae'r cynllun yn sôn am waith a throsolwg traws-sefydliadol, ond nid oes llawer o fanylion y tu hwnt i hynny. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y bwriad yno.

Mewn rhai achosion, byddai'n dda deall rhagor am bwy fydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu cynnwys o ran cyflawni ei uchelgeisiau. Byddem yn annog y bwrdd i feddwl yn greadigol ynghylch pwy allai gyfrannu at bob cam gweithredu wrth benderfynu pwy sydd yn y sefyllfa orau i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu arfaethedig, neu gydweithio i'w cyflawni. Mae'n bwysig bod y bobl y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymgysylltu â nhw yn gallu cynnig yr ystod ehangaf bosibl o wybodaeth, heriau adeiladol, data ac atebion i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

I'r perwyl hwnnw, byddem yn awgrymu estyn allan at bartneriaid sydd â diddordeb yn yr ymyriadau a roddir ger bron, fel rhwydweithiau cydraddoldeb, fforymau ieuenctid, gwasanaethau cymorth ar gyfer cyflogadwyedd a Chynghorau Gwirfoddol Sirol.

Yn olaf, byddai'n fuddiol petai modd i'r cynllun gynnwys y rôl y bydd cynghorau cymuned a thref yr ardal yn ei chwarae yn y broses o gyflawni'r amcanion, yn enwedig y cynghorau hynny sydd â dyletswydd i wneud hynny. Nodwn fod cynrychiolydd o Un Llais Cymru yn eistedd ar y Bwrdd, felly gobeithio bod rhywfaint o ymgysylltu ar y gweill.

### Integreiddio ac Atal

Gobeithio bydd y penderfyniad i gael amcan trawsbynciol trosfwaol yn gallu cyfrannu at effeithiau ar draws y pedwar piler llesiant; mae'r amcanion unigol hefyd yn cydnabod bod gorgyffwrdd a'i bod yn bosibl y cyflawnir yn erbyn nifer o nodau.

Byddai'r cynllun yn well byth petai'n dangos sut mae newid yn yr hinsawdd hefyd yn gallu effeithio ar gyflawni ar draws nifer o'r amcanion llesiant a nodwyd ac ystyried hyn wrth gynllunio camau gweithredu ar draws y gwahanol amcanion. Er enghraifft:

- Mae newid yn yr hinsawdd yn gallu gwaethygu anghydraddoldebau sydd eisoes yn bodoli. Gallai effeithio ar seilwaith digidol o ganlyniad i ddigwyddiadau tywydd eithafol fel gwres eithafol a llifogydd. Ar ben hynny, mae'n debygol y bydd angen addasu'r stoc dai ar gyfer datgarboneiddio ac i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd (fel mwy o wres eithafol a llifogydd) – efallai y bydd hyn yn anoddach i gartrefi incwm isel.
- Gallai waethygu anghydraddoldebau iechyd, sy'n gysylltiedig â thai sydd wedi'u haddasu'n wael er enghraifft. Gallai hefyd effeithio ar fynediad at fwyd iach oherwydd bod newid yn yr hinsawdd yn gallu effeithio ar gynhyrchu bwyd yn lleol ac yn fyd-eang (gan effeithio ar gadwyni cyflenwi).
- Wrth gynnal yr astudiaeth waelodlin gychwynnol arfaethedig sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â chaledi, efallai y byddai'n ddefnyddiol ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd, yr angen i ddatgarboneiddio, a'r angen i addasu.

Nid yw'n amlwg yn y cynllun a yw'r amcanion rydych chi wedi'u dewis yn debyg i amcanion llesiant aelodau statudol y bwrdd. Byddai'n dda cael syniad o faint o waith integreiddio y bwriedir ei wneud rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydliadau eraill. Yn yr un modd, gallai'r cynllun fod yn gryfach lle mae'n dangos gwerth ychwanegol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn wahanol i gyrff ar wahân sy'n cyflawni eu camau gweithredu eu hunain.

Mae lle i fod yn fwy penodol ac ymhelaethu ar y thema atal. Yn fwy penodol, byddai'n ddefnyddiol archwilio sut gallai'r camau gweithredu a gynigir atal problemau/blaenoriaethau allweddol rhag gwaethygu, a beth yw goblygiadau dulliau ataliol o ran y ffordd y bydd y bwrdd yn gweithredu ac yn defnyddio adnoddau.

### Balans ac Ehangder

Mae'r cynllun yn gytbwys, gydag amcan trawsbynciol trosfwaol (mynd i'r afael â thlodi a chaledi), ac amcan penodol ar gyfer llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Roedd ein cydweithwyr sy'n arwain polisi diwylliant yn Llywodraeth Cymru yn credu bod yr amcan diwylliannol wedi cael ei lastwreiddio rhywfaint drwy ei gyfuno â chymunedau diogel ac wedi'u cysylltu, oherwydd gellid ystyried bod hwn yn fwy o amcan cymdeithasol. Byddai'n werthfawr egluro'n fwy penodol sut mae llesiant diwylliannol yn cael ei gefnogi, neu sut bydd diwylliant yn helpu i wella cymunedau diogel sydd wedi'u cysylltu. Mae gan bob un o'r amcanion gyfiawnhad clir ynghylch pam cafodd ei ddewis (ar sail tystiolaeth o'r asesiad) a set o uchelgeisiau, gyda chamau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd.

Mae'n gryfder eich bod wedi cyfeirio at y strategaethau corfforaethol, y cynlluniau a'r rhaglenni gwaith eraill sydd eisoes ar waith yn y sir (gan gynnwys Datganiad Ardal Canolbarth Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru, cynlluniau Seilwaith Gwyrdd, Model Cymdeithasol Llesiant, Strategaeth Economaidd, Cynaliadwyedd a Strategaeth Amgylcheddol Cyngor Sir Ceredigion (Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru). Mae'n amlwg y bydd y cynlluniau a'r rhaglenni eraill hyn yn cael eu hystyried, lle bo hynny'n briodol, a bod cysylltiadau perthnasol yn cael eu gwneud i sicrhau bod y cynllun yn gallu cyfrannu at y gwaith a wneir.

**Dull Gweithredu Myfyriol a Chritigol**

Mae'r asesiad llesiant wedi cael ei ddefnyddio'n effeithiol i helpu i nodi'r blaenoriaethau y dylid rhoi sylw iddynt yn y cynllun ac mae'n nodi'n glir y cyfiawnhad dros bob un o'r amcanion. Byddai modd ei gryfhau drwy roi rhagor o ystyriaeth i gryfderau a gwendidau datblygu'r cynllun, er enghraifft, ymgysylltu â gwahanol gymunedau a phartneriaid cyflenwi.

Mae'r bwlch tystiolaeth ers Covid-19 mewn data am nodweddion gwarchodedig yn cael ei grybwyll, ond ychydig iawn o fanylion sydd ar gael am hyn ac nid oes unrhyw gyfeiriad at fylchau eraill yn y dystiolaeth a allai fod wedi effeithio ar ddatblygiad y cynllun.

**Defnydd o dystiolaeth**

Er bod y dystiolaeth o'r asesiad wedi cael ei defnyddio'n effeithiol wrth ddewis yr amcanion ac wrth ddatblygu'r cynllun, rydym yn meddwl y gellid cryfhau'r cynllun drwy:

- Ystyried y sylfaen dystiolaeth 'beth sy'n gweithio' i egluro pam mae rhai camau gweithredu penodol wedi cael eu dewis a datblygu damcaniaeth newid i egluro sut mae disgwyl i'r camau gweithredu hyn arwain at yr uchelgeisiau a nodwyd (mae rhywfaint o arwydd yn y cynllun eich bod wedi dechrau gweithredu damcaniaeth newid ee, drwy'r drafodaeth ar fanteision therapi syrffio, ond gellid adeiladu ar hyn).
- Dangos cynlluniau ar gyfer gwerthuso gweithrediad yr uchelgeisiau a'u heffaith. Gallai'r dull damcaniaeth newid a grybwyllir uchod fod yn fframwaith defnyddiol ar gyfer datblygu dulliau gwerthuso.

**<u>Yr elfennau i'w datblygu</u>**

| |
|---|
| **Categori A**<br><br>Rhagor o ystyriaeth i'r camau gweithredu tymor byr, canolig a hir (gweler 'Amserlenni') |
| **Categori B**<br><br>Rhagor o fanylion am ymgysylltu a chynnwys (gweler 'Cynnwys')<br><br>Mwy o bwyslais ar atal (gweler 'Integreiddio ac Atal')<br><br>Rhoi mwy o ystyriaeth i fylchau yn y dystiolaeth (gweler 'Dull Gweithredu Myfyriol a Chritigol') |
| **Category C** |

## ATODIAD

| Amcan | Cyngor gan arweinwyr polisi |
| --- | --- |
| **Mynd i'r afael â chaledi a thlodi: cydweithio i gyflawni uchelgeisiau cyffredin ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau yng Ngheredigion oherwydd gall y rhain gael effaith ar draws y pedwar piler llesiant – llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.** | Rydym yn croesawu'r syniad o gael amcan trawsbynciol a fydd yn bwydo i mewn i'r holl amcanion eraill, yn enwedig ar fater mor bwysig. Cyn bo hir bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ei Strategaeth Tlodi Plant newydd a byddem yn eich annog i gyfrannu at hynny o ran sut gallai Llywodraeth Cymru helpu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflawni'r amcan hwn. |

| Amcan | Uchelgais | Cyngor gan arweinwyr polisi |
| --- | --- | --- |
| **Cydweithio i sicrhau economi gynaliadwy sydd o fudd i bobl leol ac sy'n adeiladu ar gryfderau Ceredigion.** | Cefnogi gwaith y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau bod anghenion lleol a bylchau sgiliau yn cael eu nodi ac yn cael sylw. | Roedd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi lansio ei Chynllun Cyflogaeth a Sgiliau yn ddiweddar. Bydd yn bwysig gweithio'n agos gyda'r Bartneriaeth ar yr uchelgais hwn i sicrhau nad oes dyblygu. |
| | Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ariannu yn y dyfodol i gyflawni amcanion y BGC | Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu sut mae gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei ariannu ar hyn o bryd. Nod yr adolygiad yw edrych ar y cyllid y gall Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ei ddefnyddio i gyflawni eu blaenoriaethau a'u hamcanion drwy;<br>• Archwilio sut mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu hariannu gan aelodau statudol.<br>• Archwilio pa adnoddau cyllido eraill sydd ar gael i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu defnyddio i gyflawni eu blaenoriaethau a'u hamcanion.<br>• Nodi arferion da o ran darparu adnoddau i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus drwy gronni cyllid ac adnoddau eraill ac ystyried a fyddai'n ddefnyddiol datblygu dull gweithredu cyffredin.<br>Gobeithio y bydd canlyniadau'r adolygiad, ar ôl ei gwblhau, o ddefnydd ichi. |
| | Ystyried ffyrdd arloesol o wneud cadwyni cyflenwi yn fwy | Hoffem ddeall rhagor am y cynllun i gyflawni argymhellion y Ganolfan Strategaethau Economaidd Lleol ac os |

| | | |
|---|---|---|
| | effeithlon gan gefnogi'r economi leol yr un pryd. | yw'r rhain yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Economi Sylfaenol ac yn cefnogi busnesau lleol, byddem yn fodlon ystyried y potensial ar gyfer darparu cymorth ariannol.<br>Sut bydd mwy o effeithlonrwydd mewn cadwyni cyflenwi yn cael ei fesur ac a oes sectorau penodol yn y sylfaen gyflenwi leol y byddwch chi'n canolbwyntio arnynt? |
| | Sefydliadau'r BGC yn ysgogi cyfranogiad mwy cynhwysol mewn gwaith teg, cynaliadwy fel rhan o'r ymdrechion i ddatblygu economi llesiant. | O safbwynt gwaith teg, rydym yn croesawu'r manylion sy'n nodi sut bydd yr uchelgais yn cael ei gyflawni, yn enwedig yr addewid: *"Bydd holl sefydliadau'r BGC yn ymrwymo i ddatblygu meddylfryd gwaith teg, rhoi gwaith teg wrth galon polisïau a chynlluniau, creu gwaith teg a bod yn esiamplau o waith teg yng Ngheredigion gan ddangos gwerth dull gweithredu o'r fath i fusnes a'r gymuned a hyrwyddo mynediad i waith teg i bawb."*<br>Mae hyn yn cyfleu dull y byddem yn gwbl gefnogol iddo – gyda sefydliadau unigol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn chwarae eu rhan i arwain drwy esiampl ar waith teg fel cyflogwyr yn eu rhinwedd eu hunain, fel llunwyr polisïau, fel cyllidwyr partneriaid allanol ac wrth hyrwyddo gwaith teg a'i fanteision i fusnesau ac i'r gymuned drwyddi draw. Yn sicr, byddai'n bosibl i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y materion hyn.<br><br>Mae pryder ynghylch diffyg mesurau y gellir eu defnyddio i feincnodi cynnydd yn erbyn yr uchelgais a'r cam gweithredu a nodir.<br><br>Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynhyrchu briff ar waith teg a allai fod yn ddefnyddiol ac mae hwn ynghlwm. |
| **Cydweithio i leihau anghydraddoldebau yn ein cymunedau a defnyddio atebion cymdeithasol a gwyrdd i wella** | Gwella mynediad anghyfartal at fwyd iach a gweithio i wella cynaliadwyedd y system fwyd yng Ngheredigion | Mae rhai pethau difyr eisoes yn digwydd yng Ngheredigion y gellid adeiladu arnynt gyda phlatfform "Cysylltu Ceredigion" Cysylltu Ceredigion - Rhowch hwb i'ch lles – Gallai fod yn ddefnyddiol i chi ystyried hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| **iechyd corfforol a meddyliol.** | | Nodwn eich bod yn bwriadu archwilio'r cyfleoedd i fod yn Lle Bwyd Cynaliadwy. Ar hyn o bryd mae gan Gaerdydd statws arian fel Lle Bwyd Cynaliadwy ac efallai yr hoffech gysylltu â nhw i'w holi am eu profiadau. Wrth ddatblygu Ceredigion fel Lle Bwyd Cynaliadwy, sut bydd hyn yn cysylltu â/yn elwa o'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Bwyd Cymunedol? |
| | Presgripsiynu cymdeithasol, gwyrdd a glas, a ddarperir gan wasanaethau sydd wedi'u cydgysylltu'n dda, yw'r dull atgyfeirio arferol a derbyniol ar gyfer gwella iechyd. | Mae hwn yn uchelgais blaengar iawn sy'n ceisio elwa o'r manteision a ddaw yn sgil lleoliad daearyddol Ceredigion. Rydym yn edrych ymlaen at glywed rhagor am sut caiff yr uchelgais hwn ei gyflawni. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn datblygu model ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol a chynhaliwyd ymgynghoriad y llynedd. Rydym yn argymell eich bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y maes hwn. Datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol \| LLYW.CYMRU |
| **Cydweithio i gyflawni mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol.** | • Ceisio cyflawni gweithgarwch datgarboneiddio o fewn cymunedau.<br>• Cyrraedd statws Sero Net erbyn 2030<br>• Uwchsgilio ac ailhyfforddi ar gyfer adferiad gwyrdd<br>• Paratoi ar gyfer effeithiau newid hinsawdd. | Mae'r amcan hwn yn ymwneud yn benodol â gwarchod yr amgylchedd a lliniaru'r effeithiau ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth, ond gellid ystyried hyn yn ehangach drwy hefyd ystyried yr effeithiau ar iechyd, anghydraddoldeb a seilwaith. Efallai y byddai'n ddefnyddiol cynnwys rhagor o fanylion yn yr amcan hwn ynghylch beth fydd rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth i fanylion mwy penodol gael eu rhoi ar gyfer yr amcanion llesiant eraill wrth gymharu â'r amcan hwn. Er enghraifft, sut bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn helpu i gyflawni gweithgareddau datgarboneiddio? Beth fydd ei rôl? Sut bydd yn helpu i ddatblygu cymunedau cryf – ac yw'n gallu edrych ar draws yr amcanion llesiant gwahanol i addasu a gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd?<br><br>Mae'n dda gweld bod y cynllun yn amlinellu camau ar gyfer uwchsgilio ac ailhyfforddi ar gyfer economi werdd. |
| **Cydweithio er mwyn i gymunedau** | Ceredigion yn fan lle mae amrywiaeth | Mae'n dda gweld diwylliant yn cael ei adlewyrchu ar lefel uchaf y cynllun fel piler |

| | | |
|---|---|---|
| **deimlo'n ddiogel a'u bod wedi'u cysylltu, gan hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg** | ddiwylliannol a'r Gymraeg yn cael eu dathlu | pedwar – Llesiant Diwylliannol. Fodd bynnag, nid yw'r amcanion o dan llesiant diwylliannol yn cyd-fynd yn union â'r nod o Gymru â diwylliant bywiog (a'r Gymraeg yn ffynnu). Mae diwylliant yn cyfrannu at gydlyniant cymdeithasol os yw'r cynnig yn 'fywiog' ond nid yw hyn wedi cael ei ddatblygu digon ac mae'n cael ei gysylltu (yn wan) â 'diogelwch cymunedol'. Gellid dweud llawer am sut mae diwylliant yn cyfrannu at lesiant cymdeithasol a synnwyr o berthyn, ond nid yw'n amlwg. Mae Ceredigion – Aberystwyth yn benodol, yn chwaraewr cenedlaethol a phwysig iawn o ran arlwy diwylliannol Cymru – er enghraifft, y Llyfrgell Genedlaethol, y Comisiwn Brenhinol, y Cyngor Llyfrau, Canolfan y Celfyddydau, Arad Goch, yr Hen Goleg a'r Brifysgol, a llyfrgelloedd ac amgueddfeydd rhagorol. Gallai'r uchelgeisiau lefel uchaf adlewyrchu Ceredigion fel canolfan o bwysigrwydd diwylliannol cenedlaethol.<br><br>Er bod y camau gweithredu rydych yn bwriadu eu cymryd mewn perthynas â'r Gymraeg i'w croesawu, byddem yn eich annog i adolygu geiriad yr uchelgais, o ystyried canlyniadau'r cyfrifiad diweddar. |
| | Y gymuned yn cael ei chynnwys er mwyn i bobl deimlo eu bod wedi'u grymuso ac yn wybodus er mwyn sicrhau diogelwch cymunedol lleol | Croesewir yn bendant eich bod wedi creu'r gwahaniaeth rhwng realiti ffigurau troseddu a chanfyddiadau pobl o'r ffigurau, yn ogystal â'r cysylltiad rhwng teimlo'n ddiogel a hunaniaeth gymunedol yn fwy cyffredinol. Mae cysylltu eich asesiad strategol â'ch Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yn gam synhwyrol.<br><br>Nid yw'n glir o'r fersiwn drafft yn union beth fydd yr Asesiad Strategol yn canolbwyntio arno a sut bydd yn cael ei gynnal. Byddem yn eich annog i wneud y canlynol:<br>• Meddyliwch am y ffactorau ehangach sy'n sbarduno troseddu – sut gall partneriaid weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â thlodi, trawma sy'n pontio'r cenedlaethau, |

| | | |
|---|---|---|
| | | camddefnyddio sylweddau ac ati? Bydd llawer o'r amcanion a'r camau gweithredu llesiant eraill yma'n cyfrannu at leihau troseddu hefyd, a byddem yn eich annog i feddwl am droseddu fel mater cymdeithasol neu iechyd y cyhoedd (mae'r fersiwn drafft yn awgrymu hynny i raddau)<br>• Ymgorffori dull gwrth-hiliol, yn unol â chynllun gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru – byddem yn gobeithio y byddai unrhyw asesiad strategol yn cynnwys camau gweithredu i leihau gor-gynrychiolaeth pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y system gyfiawnder |

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Public Services Board